# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CYNLLUNIO**

Dyddiad ac Amser

**1.00 y.h., DYDD LLUN, 20FED HYDREF, 2025**

***NODER***

**BYDD Y CYFARFOD YN CAEL EI WEDDARLLEDU**

**https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home**

Lleoliad

**Hybrid - Siambr Dafydd Orwig, Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon LL55 1SH ac yn rhithiol drwy Zoom**

**D.S.**

Rhagflaenir gan ymweliad safle mewn cysylltiad â chais rhif C24/0937/16/LL Zip Worls, Chwarel Penrhyn, Bethesda, Gwynedd LL57 4YG

Aelodau'r Pwyllgor i gyfarfod yn Chwarel Penrhyn, Bethesda am 10:30am

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679 878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Gwener, 10 Hydref 2025)

## PWYLLGOR CYNLLUNIO

## Aelodaeth (15)

### Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Elwyn Edwards | Delyth Lloyd Griffiths |
| Elin Hywel | Gareth Tudor Jones |
| Olaf Cai Larsen | Edgar Wyn Owen |
| Gareth A Roberts | Huw Rowlands |
| John Pughe | Berwyn Parry Jones |

### Annibynnol (4)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Louise Hughes | Anne Lloyd-Jones |
| John Pughe Roberts | Gruffydd Williams |

### Llafur / Rhyddfrydol (1)

Y Cynghorydd Gareth Coj Parry

## TREFN SIARAD AR GEISIADAU CYNLLUNIO YN Y PWYLLGOR CYNLLUNIO

Mae’r Cyngor wedi penderfynu rhoddi’r hawl i 3ydd parti siarad ar geisiadau cynllunio yn y Pwyllgor Cynllunio. Mae’r daflen hon yn amlinellu’r trefniadau gweithredol arferol ar gyfer siarad yn y pwyllgor.

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Adroddiad y Gwasanaeth Cynllunio ar y cais cynllunio yn cynnwys argymhelliad. | |
| 2. | Os oes cais wedi ei dderbyn gan 3ydd parti i siarad, bydd y Cadeirydd yn gwahodd y siaradwr ymlaen | |
| 3. | Gwrthwynebydd, neu gynrychiolydd o’r gwrthwynebwyr yn cael annerch y pwyllgor | 3 munud |
| 4. | Ymgeisydd, gynrychiolydd yr ymgeisydd(wyr) neu Asiant yn cael annerch y pwyllgor | 3 munud |
| 5. | Aelod(au) Lleol yn cael annerch y pwyllgor | 10 munud |
| 6. | Cadeirydd y pwyllgor yn gofyn am gynigydd ac eilydd i’r cais cynllunio | |
| 7. | Y pwyllgor yn trafod y cais cynllunio. | |

# RHAGLEN

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol ac i nodi materion protocol.

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION 6 - 11

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 29ain Medi 2025 fel rhai cywir

## 5. CEISIADAU AM GANIATÂD CYNLLUNIO

Cyflwyno adroddiad Pennaeth Adran Amgylchedd.

### 5.1 CAIS RHIF C23/0338/38/LL TIR GERLLAW LON PIN, LLANBEDROG, PWLLHELI, LL53 7PH 12 - 42

Cais llawn i osod paneli solar (PV) er mwyn creu fferm solar 4.99MW gyda datblygiadau cysylltiedig gan gynnwys creu mynedfa gerbydol newydd a thraciau mynediad, codi ffens, tirlunio, gosod 2 stesion newidydd i gasglu a dosbarthu trydan a grëir a gosod ceblau tanddaearol.

AELOD LLEOL: Cynghorydd Angela Russell

Dolen i'r dogfennau cefndir  perthnasol

### 5.2 CAIS RHIF C24/0937/16/LL ZIP WORLD, CHWAREL PENRHYN, BETHESDA, BANGOR, GWYNEDD, LL57 4YG 43 - 64

Datblygu reid dwristiaeth antur newydd ar ffurf 'Swing' i gynnwys codi strwythur platfform, ramp a strwythur glanio, ceblau a strwythurau angori ynghyd â gwaith cysylltiedig

AELOD LLEOL: Cynghorydd Beca Roberts

Dolen i'r dogfennau cefndirol perthnasol

**PWYLLGOR CYNLLUNIO 29ain o Fedi 2025**

**Presenoldeb:**

Cadeirydd: Cynghorydd Elwyn Edwards

Y Cynghorwyr: Delyth Lloyd Griffiths, Louise Hughes, Elin Hywel, Berwyn Parry Jones, Gareth T Jones, Anne Lloyd Jones, Cai Larsen, Edgar Owen, Gareth Coj Parry, Gareth A Roberts, John Pughe Roberts a Gruffydd Williams

Eraill a wahoddwyd - Aelod Lleol: Y Cynghorydd Richard Glyn Roberts

Swyddogion: Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol - Swyddog Monitro), Gwawr Hughes (Rheolwr Cynllunio), Elan Mared Lloyd (Swyddog Cynllunio), Dafydd Jones (Cyfreithiwr) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Huw Rowlands

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL**

a) Datganodd yr aelodau canlynol eu bod yn aelodau lleol mewn perthynas â'r eitem a nodir:

- Y Cynghorydd Richard Glyn, (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 5.2 (C25/0361/30/LL) ar y rhaglen

**3. MATERION BRYS**

Fel mater o drefn, adroddwyd, gyda'r Cadeirydd yn ymuno yn rhithiol, mai'r Swyddog Monitro fyddai'n cyhoeddi canlyniad pleidleisiau'r ceisiadau.

**4. COFNODION**

Derbyniodd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor hwn a gynhaliwyd 8 fed o Fedi 2025 fel rhai cywir.

**5. CEISIADAU CYNLLUNIO**

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r ceisiadau canlynol i'w datblygu. Ymhelaethwyd ar fanylion y ceisiadau ac ymatebwyd i gwestiynau mewn perthynas â'r cynlluniau ac agweddau o'r polisïau.

**5.1 CAIS RHIF C25/0503/14/DT**

**STRADE, 65 CAE GWYN, CAERNARFON, GWYNEDD**

Dymchwel ystafell haul presennol a chodi estyniad newydd i'r cefn

a) Amlygodd y Swyddog Cynllunio mai cais deiliad tŷ oedd dan sylw ar gyfer dymchwel ystafell haul presennol a chodi estyniad unllawr ar gefn yr eiddo. Eglurwyd bod bwriad gorffen yr estyniad gyda chladin pren, gyda ffenestri uchel yn cael eu gosod i edrychiadau ochr yr estyniad a drysau biffold a ffenestri mawr ar edrychiad cefn yr eiddo.

Nodwyd bod yr eiddo yn dŷ unigol mewn ystâd o dai unigol eraill ac o fewn ffin datblygu Caernarfon. Nid yw'r eiddo wedi ei leoli o fewn unrhyw ddynodiadau tir arbennig ac fe gyflwynwyd y cais i Bwyllgor gan fod yr ymgeisydd yn Aelod Etholedig o'r Cyngor.

Adroddwyd nad oedd unrhyw wrthwynebiad wedi ei dderbyn yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus a bod Dŵr Cymru yn cynnig cyngor a chanllawiau i'r ymgeisydd drwy lythyr.

Yng nghyd-destun materion dyluniad a mwynderau preswyl, ni ystyriwyd y byddai'r bwriad yn niweidiol i edrychiad presennol y safle nac yn amharu yn ormodol ar fwynderau gweledol yr ardal yn gyffredinol. Ystyriwyd bod yr adeilad yn safonol yr olwg, o ran mwynderau gweledol ac felly yn dderbyniol ac yn cydymffurfio gyda gofynion maen prawf 1 a 2 o bolisi PCYFF 3. O ran dyluniad, ystyriwyd nad oedd effaith ar fwynderau cymdogion cyfagos oherwydd mai estyniad unllawr sydd yma, ac na fyddai'r ffenestri a'r drysau cefn yn cael effaith gwaeth ar fwynderau preifat i gymharu â'r ystafell haul oedd yno yn bresennol.

Tynnwyd sylw at y gwelliannau bioamrywiaeth oedd wedi eu cynnig, megis gosod blychau adar ac ystlumod. Nodwyd, pe byddai'r cais yn cael ei ganiatáu, byddai modd gosod amod i sicrhau bod y gwelliannau yn cael eu cwblhau cyn i ddefnydd yr estyniad ddechrau.

Ystyriwyd bod y bwriad yn cydymffurfio gyda chanllawiau a pholisïau cynllunio. Argymhelliad y swyddogion oedd caniatáu'r cais gydag amodau.

b) Cynigiwyd ac eiliwyd caniatáu y cais – y cais gerbron y pwyllgor gan mai Aelod Etholedig oedd yr ymgeisydd.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â Hawliau Datblygu a Ganiateir i Ddeiliaid Tai a bod yr hawliau hynny yn caniatáu adeiladu allan i hyd at 4m a pham felly bod y cais yn cael ei gyflwyno i bwyllgor, nodwyd bod yr estyniad yn mesur 4.8 metr ac felly angen ei gyflwyno i bwyllgor am benderfyniad.

**PENDERFYNWYD: Caniatáu Gydag Amodau**

1. **Pum Mlynedd i ddechrau'r gwaith**
2. **Unol a chynlluniau**
3. **Unol a'r datganiad seilwaith gwyrdd**

Nodyn Gwybodaeth: Dŵr Cymru

**5.2 CAIS RHIF C25/0202/40/LL**
**TIR YN Y FFÔR, PWLLHELI**

Cais newid defnydd ar gyfer gosod 12 Caban Gwyliau ar dir yn Y Ffôr, Pwllheli

Tynnwyd sylw at y ffurflen sylwadau hwyr.

a) Amlygodd y Rheolwr Cynllunio mai cais ydoedd ar gyfer datblygu safle llety gwyliau newydd ar gyfer 12 caban gwyliau parhaol a pharcio cysylltiedig, draenio a thirlunio. Byddai'r cabanau pren o gladin pren wedi ei staenio mewn lliw cadwraeth a byddai pob un yn cynnwys ystafelloedd cysgu, ystafell ymolchi, ystafell fyw a chegin / ystafell fwyta.

Adroddwyd y byddai'r unedau yn cael eu gosod yng nghornel cae amaethyddol yng nghefn gwlad agored. Er nad oes dynodiad tirwedd arbennig i ardal y cais, mae o edrychiad a chymeriad tirwedd wledig heb ei ddatblygu gyda sawl eiddo preswyl nad yw ym mherchnogaeth yr ymgeisydd wedi ei leoli'n agos i'r safle.

Nodwyd bod bwriad darparu system draenio breifat i ddŵr glân a budr ar gyfer y bwriad ond nad oedd y datblygwr wedi cyflwyno unrhyw ganlyniadau profion mandylledd / trylifiad mewn perthynas â'r system garthffosiaeth breifat. Cyflwynwyd cynllun tirlunio gyda'r cais yn dangos bod bwriad plannu nifer helaeth o goed ar hyd terfyn de gorllewinol a de ddwyreiniol y safle ynghyd â chryfhau gwrych presennol ar hyd y ffordd sirol, ond ni dderbyniwyd manylion o'r cynllun hwnnw gyda'r cais.

Amlygwyd mai Polisi TWR 3 oedd y polisi perthnasol y cai yma gan fod y cabannau yn rhai parhaol. Nodwyd bod rhan gyntaf y polisi yn cyfeirio'n benodol at ormodedd o ddatblygiadau newydd. Ategwyd, er mwyn diffinio 'gormodedd' yn y cyd-destun yma, tynnwyd sylw at eglurhad 6.3.69 polisi TWR 3 sy'n cyfeirio at 'Astudiaeth Capasiti a Sensitifrwydd y Dirwedd yn Ynys Môn, Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri 2014. O fewn pob Ardal Cymeriad y Dirwedd bydd y dirwedd yn cael ei asesu er mwyn canfod beth yw ei gapasiti ar gyfer mwy o ddatblygiadau sialetau neu garafanau gwyliau.

Ategwyd bod y datblygiad penodol yma yn disgyn o fewn Ardal Cymeriad y Dirwedd G10 (Canol Llŷn) gyda'r astudiaeth yn cadarnhau, "Y tu allan i'r AHNEau a'r ATAau fe all fod rhywfaint o gapasiti ar gyfer datblygiadau ar raddfa fach i fach iawn wedi eu lleoli yn sensitif ac wedi eu cynllunio'n dda, a ddylai berthnasu'n dda gyda'r amgylchedd adeiledig / gorchudd tir trefol presennol." Nodwyd bod yr Astudiaeth yn diffinio datblygiadau bach iawn fel rhai hyd at 10 uned a datblygiadau bach rhwng 10 - 25 uned. Er bod y bwriad gerbron yn disgyn o fewn y diffiniad o ddatblygiad bach, ni ystyriwyd fod y safle yma yn lleoliad sy'n perthnasu'n dda gyda'r amgylchedd adeiledig neu orchudd tir trefol, ac felly ar sail hynny ni ystyriwyd fod capasiti ar gyfer y bwriad ar y safle gwledig yma.

Tynnwyd sylw at yr ail faen prawf oedd yn cyfeirio at ddyluniad, gosodiad ac edrychiad y datblygiad arfaethedig gan ddatgan ei fod o ansawdd uchel, ac y dylai datblygiadau newydd gael eu lleoli mewn man anymwthiol. Diffinnir lleoliad anymwthiol fel un sydd wedi cael ei sgrinio'n dda gan nodweddion o'r dirwedd sy'n bodoli'n barod neu ble gellid cydweddu'r unedau'n hawdd yn y dirwedd mewn modd sydd ddim yn peri niwed sylweddol i ansawdd gweledol y dirwedd. Ystyriwyd bod y bwriad yma wedi ei leoli yng nghornel isaf y cae mewn lleoliad gweledol i'r cyhoedd o'r briffordd. Cydnabuwyd bod Asesiad Effaith Weledol Tirwedd wedi ei gyflwyno, ond roedd y swyddogion yn nodi nad oedd y bwriad yn dderbyniol o ran effaith weledol ac felly'n groes i'r ail faen prawf, yn ogystal â pholisi PCYFF 3 o'r CDLl o ran mwynderau gweledol.

Adroddwyd bod y safle wedi ei leoli o fewn ardal wledig, ac ardal sy'n rhydd o weithgareddau masnachol ac eithrio peiriannau amaethyddol achlysurol ar y caeau ynghyd a thrafnidiaeth ysgafn ar y ffyrdd. Nodwyd bod maes carafanau sefydlog hanesyddol dros 500 medr i'r de orllewin a thai preswyl wedi eu gosod yma ac acw, gyda 2 ohonynt o fewn tua 150 medr i'r de ddwyrain a'r de o'r safle. Saif tŷ o'r enw Bodlas (sef y tŷ agosaf) ger y ffordd gyda mynedfa i'r ffordd. Ystyriwyd y byddai gweithgareddau'r safle ynghyd â chynnydd mewn trafnidiaeth

fydd yn mynychu'r safle ar hyd y ffordd dawel, yn amharu ar dawelwch yr ardal a chymeriad ac edrychiad deniadol yr ardal wledig leol yma. Mae gweithgareddau sy'n nodweddiadol o bobl ar eu gwyliau yn wahanol i weithgareddau eiddo preswyl, ac fe all gynnwys cyfnodau o sŵn uchel ar adegau gyda'r nos, ynghyd â symudiadau cerbydau cyson. Ystyriwyd y gall hyn achosi effaith andwyol sylweddol ar fwynderau'r trigolion cyfagos ac felly'r bwriad yn groes i Bolisi PCYFF 2 o'r Cynllun Datblygu Lleol.

Derbyniwyd sylwadau Heneb ar y cais oedd yn datgan y dylid cynnal archwiliad archeolegol cyn dod i benderfyniad ar y cais. Cyfeiriwyd at y wybodaeth gychwynnol oedd wedi ei dderbyn ond cadarnhaodd Heneb nad oedd y wybodaeth yn ddigonol ar gyfer penderfynu sut y byddai'r bwriad yn debygol o effeithio unrhyw archeoleg ar y safle. Ar sail hyn, roedd y bwriad yn groes i ofynion polisi AT4 o'r CDLl.

Nodwyd hefyd fod y bwriad yn cynnwys darparu System Trin Carthffosiaeth newydd ar gyfer delio gyda gwastraff dŵr budr o'r datblygiad. Cyfeiriwyd at sylwadau gan Cyfoeth Naturiol Cymru a Gwarchod y Cyhoedd oedd yn cadarnhau nad oedd gwybodaeth ddigonol wedi ei gyflwyno er mwyn sicrhau fod y modd yma o ddelio gyda gwastraff dŵr budr yn dderbyniol, ac felly nid oedd gwybodaeth ddigonol i gadarnhau fod y bwriad yn dderbyniol ac felly'n groes i ofynion polisi ISA 1 sy'n sicrhau darpariaeth isadeiledd digonol.

Mynegwyd bod Datganiad Ieithyddol wedi ei gyflwyno ers cyhoeddi'r adroddiad, a chadarnhawyd bod modd gosod amodau cynllunio i sicrhau bod y busnes yn ymgorffori enw Cymraeg a bod arwyddion Cymraeg/dwyieithog yn cael eu defnyddio petai'r bwriad wedi bod yn addas o ran egwyddor. O ganlyniad i dderbyn Datganiad Iaith nid yw'r cynnig bellach yn groes i ofyniad Polisi PS1 y CDLl ac y bydd rheswm gwrthod parthed Datganiad Ieithyddol yn yr adroddiad yn cael ei ddileu.

Ystyriwyd fod y bwriad yn groes i ofynion meini prawf 1.i a ii. o bolisi TWR 3 a pholisi PCYFF 3 a Chanllaw Cynllunio Atodol: Llety Gwyliau ar sail effaith weledol, polisi PCYFF 2 ar sail effaith ar fwynderau trigolion lleol, polisi ISA 1 ar sail diffyg gwybodaeth ddigonol er mwyn sicrhau darpariaeth isadeiledd digonol i ddelio gyda gwastraff dwr budr, a pholisi AT4 ar sail diffyg gwybodaeth archeolegol. Roedd y swyddogion yn argymell gwrthod y cais.

b) Yn manteisio ar yr hawl i siarad, nododd asiant yr ymgeisydd y sylwadau canlynol:

- Bod yr ymgeisydd a'i deulu yn deulu ffermio lleol o Gymru.
- Bod y cais yn un i arallgyfeirio ac un sydd ei angen i gynnal y fenter, i osgoi rhaniad mewn teulu ffermio lleol, i ddarparu cyflogaeth i blant yr ymgeisydd ac atal gweithwyr rhag symud i ffwrdd o amaethyddiaeth a'r ardal.
- Bod Profion Trylifiad ac Arolwg Geoffisegol wedi ei gynnal - oherwydd argaeledd contractwyr, cynhaliwyd y rhain yn ystod y pythefnos diwethaf. Y canlyniadau'n amlygu nad oedd dim yn edrych yn gynhanesyddol, yn anheddol, yn ddiwydiannol neu'n gysylltiedig ag angladdau.
- Cyflwynwyd Datganiad Iaith Gymraeg a cadarnhawyd y byddai arwyddion Cymraeg yn cael eu defnyddio drwy'r safle
- Cais ar raddfa fach sydd gerbron ar gyfer 12 Caban Gwyliau Pren mewn lliw 'cadwraeth' sydd yn gweddu'r amgylchedd, mewn lleoliad wedi'i dirlunio'n helaeth.
- Nid oedd unrhyw wrthwynebiadau gan yr Adran Priffyrdd nac Ecoleg.
- Ynglŷn â sylwadau a wnaed, na fydd Derbynfa na goruchwyliaeth ar y safle, nodwyd y bydd ymwelwyr yn archebu ymlaen llaw gyda mynediad yn cael ei reoli gan ANPR a TCC. Petai angen derbynfa, gall un o'r cabanau gael ei ddefnyddio ar gyfer y diben hwn - gellid amodi hyn.

- Bod y Swyddog Cynllunio yn dod i gasgliad na ellid cefnogi'r cais oherwydd ei effaith ar y dirwedd a thrigolion cyfagos. Fodd bynnag, roedd yr Asesiad Effaith Weledol ar y Dirwedd yn dod i gasgliad, "Ni fyddai gan y datblygiad unrhyw ymyrraeth sylweddol i batrymau nodedig tir fferm ar lawr gwlad na chymeriad diwylliannol. Mae maint y newid yn ddibwys, gydag effaith niwtral gyffredinol ym Mlwyddyn 1 a Blwyddyn 10.
- Bydd holl goed a gwrychoedd y ffin bresennol yn cael eu cadw ac y bydd lleiniau coed ychwanegol yn cael eu plannu.
- Yn berthnasol i'r cais hwn, bod cynnig arall ar gyfer 35 uned gan breswylydd lleol wedi'i gymeradwyo fis Tachwedd diwethaf yn Allt Fawr, Pwllheli. Y cynnig yma yn Y Ffor ar gyfer 12 uned yn unig ac yn cydymffurfio â pholisi.
- Bod hwn yn achos unigryw gan deulu ffermio Cymreig sy'n ceisio arallgyfeirio a chreu cyflogaeth ar gyfer y genhedlaeth nesaf gan osgoi rhannu teuluoedd a gweithlu lleol.
- Byddai'n cyfrannu at yr economi leol, yn cefnogi atyniadau lleol eraill, tafarndai, bwytai, a siopau.
- Yn gofyn i'r Pwyllgor ystyried y manteision y byddai'r bwriad hwn yn ei gynnig ac y byddai unrhyw elfennau amlwg yn gallu cael eu hamodi.
- Byddai'n gwerthfawrogi cefnogaeth y Pwyllgor i'r cais

c) Yn manteisio ar yr hawl i siarad, nododd yr Aelod Lleol y sylwadau canlynol
- Ei fod yn cytuno gyda rhesymau gwrthod y swyddogion
- Bod cryn wrthwynebiad yn lleol i'r cais
- Bod y Cyngor Cymuned, yn unfrydol, yn gwrthwynebu'r cais ar sail gorddatblygiad yn yr ardal
- Byddai'r bwriad yn cael effaith ar fusnesau gweithredol tebyg yn y maes – nifer o lety gwyliau yn yr ardal yn methu cyrraedd y trothwy gosod ac yn gorfod talu premiwm treth y Cyngor.

d) Cynigiwyd ac eiliwyd gwrthod y cais

Cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant o gynnal ymweld safle.

Mewn ymateb i'r cynnig i gynnal ymweliad safle, nododd y swyddog bod y rhesymau gwrthod yn ymwneud a diffyg gwybodaeth ac nid materion gweledol yn unig.

Pleidleisiwyd ar y cynnig i gynnal ymweliad safle.
Disgynnodd y cynnig

**PENDERFYNWYD**: **Gwrthod**
**Rhesymau**

1. **Byddai'r safle cabanau a'r gwaith cysylltiedig, oherwydd eu nifer, lleoliad, dyluniad, gosodiad agwedd yn y dirwedd, cynnydd yn yr arwynebedd lleiniau caled, yn arwain at nodwedd amlwg ac ymwthiol o fewn cefn gwlad agored gan gael effaith niweidiol ar y dirwedd a mwynderau gweledol yr ardal wledig ynghyd ac arwain tuag at ormodedd o safleoedd parhaol yn yr ardal leol. Mae'r bwriad felly yn groes i feini prawf 1.i a ii. o bolisi TWR 3 a pholisi PCYFF 3, o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd Gwynedd a Môn (Gorffennaf 2017) a Chanllaw Cynllunio Atodol: Llety Gwyliau.**

2. **Byddai graddfa'r bwriad yn creu symudiadau gormodol ar hyd y ffordd sirol gyfochrog a chynnydd mewn gweithgareddau gan greu sŵn ac aflonyddwch er**

**niwed i amwynder preswylwyr lleol. Felly, ystyrir bod y cynnig yn groes i bolisi PCYFF 2 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (Gorffennaf 2017).**

3. **Nid oes gwybodaeth ddigonol ar ffurf manylion am leoliad a maint y maes draenio ynghyd â chanlyniadau profion trylifiad mewn cyswllt â'r System Trin Carthffosiaeth bwriedig. Mae'r bwriad felly yn groes i ofynion polisi ISA 1 o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd Gwynedd a Môn (Gorffennaf 2017) sy'n sicrhau darpariaeth isadeiledd digonol.**

4. **Nid oes gwybodaeth ddigonol sy'n cynnwys arolwg geoffisegol wedi ei chyflwyno fel rhan o'r cais, ac felly ni ellir dod i gasgliad ynglŷn â chydymffurfiaeth y bwriad gyda pholisi AT4 o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd Gwynedd a Môn (Gorffennaf 2017) sy'n diogelu safleoedd archeolegol nad ydynt wedi'u dynodi a'u gosodiad.**

Dechreuodd y cyfarfod am 13.00 a daeth i ben am 13:50

**CADEIRYDD**

| PWYLLGOR CYNLLUNIO | DYDDIAD: 20/10/2025 |
|---|---|
| ADRODDIAD PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL | |

**Rhif: 1**

| | |
|---|---|
| **Cais Rhif:** | **C23/0338/38/LL** |
| **Dyddiad Cofrestru:** | **22/12/23** |
| **Math y Cais:** | **Llawn** |
| **Cymuned:** | **Llanbedrog** |
| **Ward:** | **Llanbedrog gyda Mynytho** |
| **Bwriad:** | **Cais llawn i osod paneli solar (PV) er mwyn creu fferm solar 4.99MW gyda datblygiadau cysylltiedig gan gynnwys creu mynedfa gerbydol newydd a thraciau mynediad, codi ffens, tirlunio, gosod 2 stesion newidydd i gasglu a dosbarthu trydan a grëir a gosod ceblau tanddaearol** |
| **Lleoliad:** | **Tir Ger Lon Pin, Llanbedrog, Pwllheli, LL53 7PH** |
| **Crynodeb o'r Argymhelliad:** | **GWRTHOD** |

## 1 Disgrifiad:

1.1 Dyma gais llawn ar gyfer gosod paneli solar ffotofoltaidd ar dir amaethyddol presennol am gyfnod o 25 mlynedd ar gyfer creu fferm solar 4.99MW. Mi fyddai'r datblygiad arfaethedig hefyd yn cynnwys gwaith atodol ar ffurf creu mynedfa gerbydol newydd a thraciau mynediad, codi ffens, tirlunio, gosod 2 stesion newidydd i gasglu a dosbarthu trydan a grëuir, gosod ceblau tanddaearol a gwaith tirlunio.

1.2 Mae safle'r cais yn mesur oddeutu 13.15 hectar (32.4 acer) ac mae'n cynnwys tir pori amaethyddol sydd wedi ei asesu fel 98% o dir graddfa 2 (tir amaethyddol safon dda iawn) a 2% yn dir graddfa 3b (tir cymedrol ar gyfer cynhyrchu cnydau neu uchel ar gyfer cynhyrchu gwair) yn unol â'r canllawiau perthnasol. Mae wedi ei leoli o fewn tirwedd a ffurf tir amrywiol sy'n cynnwys cymysgedd o lethrau esmwyth a thonnog. Gwelir presenoldeb gwrychoedd sefydledig yn ffinio caeau'r ardal gyda thyfiant o goed aeddfed yn wasgaredig ar a ger y safle. Mae rhan agosaf y safle yn amrywio o ran pellter oddiwrth ffin datblygu pentref Llanbedrog yn y mannau agosáu rhwng oddeutu 689m i'r gogledd orllewin, 623m i'r gogledd ddwyrain a 709m i'r gogledd. Mae'r safle mewn lleoliad yng nghefn gwlad agored o fewn tirwedd a ellir ei ddisgrifio yn bennaf fel un tonnog o ran ffurf. Yn gyffredinol o fewn yr ardal leol gwelir cymysgedd o ran defnydd adeiladau a thiroedd gan gynnwys ffermydd, tai preswyl, bythynnod gwyliau, safleoedd hamdden (carafanau a gwersylla) ac ysgol saethu. Mae llwybr cyhoeddus yn ymylu gyda safle'r cais i gyfeiriad y gogledd/gogledd-ddwyrain tra bod llwybr cyhoeddus arall lled cae i ffwrdd o'r safle i gyfeiriad y gorllewin/gogledd-orllewin. Mae ffordd gyhoeddus Dosbarth 3 a adnabyddir fel Lôn Pin wedi ei leoli i gyfeiriad y de-orllewin/gorllewin/gogledd-orllewin.

1.3 Mae'r safle wedi ei leoli o fewn dynodiad Ardal Tirwedd Arbennig Gorllewin Llŷn a Thirlun o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Llŷn ac Enlli. Mae ffin agosaf AHNE Llyn oddeutu 1km i ffwrdd o ran agosaf safle'r datblygiad arfaethedig. Mae henebion rhestredig yn wasgaredig o fewn yr ardal leol yr oll o fewn 2.5km o'r safle. Yn ogystal mae nifer o Adeiladau Rhestredig o fewn 2.5km i'r safle gan gynnwys Wern Fawr i'r gogledd. Mae'r safleoedd bywyd gwyllt canlynol yn gyfochrog neu'r gymharol agos i'r safle:

- Coed Caerhos - ymylu i'r gogledd/dwyrain
- Castell Grug-Henllys Uchaf – ymylu yn rhannol i'r de
- Wern Fawr – ymylu yn rhannol i'r gogledd
- Coed Penarwel – oddeutu 122m i'r de-ddwyrain
- Henllys Ganol – oddeutu 212m i'r gorllewin

1.4 Mae'r bwriad yn golygu gosod paneli solar ar gyfer creu fferm solar fyddai'n creu 4.99MW o drydan i'r Grid Cenedlaethol. Mae'r cais yn cynnwys yr elfennau isod:

- Rhesi o baneli pv ar echel gorllewin-ddwyreiniol yn wynebu'r de. Fe fyddai'r paneli odd-eutu 3m at eu pwynt uchaf gyda bwlch o rhwng 3m a 6m rhwng y rhesi yn ddibynnol ar ffurfiant y tir. Mi fyddai ongl y paneli eu hunain ar raddfa 30-35º.
- 2 is-orsaf a fyddai'n mesur 3m x 6m a 3m o uchel.
- 1 adeilad ar gyfer dosbarthu i'r rhwydwaith a fyddai'n mesur 6m x 4m ac yn 3m o uchder
- Ffens ddiogelwch a fyddai'n mesur 2m o uchder o gwmpas yr holl safle
- Camerau cylch cyfyng ar bolion 2.5m mewn gwahanol leoliadau o gwmpas y safle.
- Mynediad gerbydol a thraciau mynediad

1.5 Mae'r dogfennau a restrir isod wedi eu cyflwyno fel rhan o'r cais:

- Datganiad Cynllunio
- Asesiad Ecolegol
- Asesiad Ansawdd Tir Amaethyddol
- Asesiad Archeolegol a Threftadaeth
- Datganiad Trafnidiaeth
- Datganiad ac Asesiad Effaith Iaith Gymraeg
- Datganiad Ymglymiad Cymunedol
- Asesiad Tirwedd ac Effaith Weledol
- Asesiad Effeithiau ar Goed
- Cynllun Rheolaeth Bioamrywiaeth
- Asesiad Llacharedd
- Datganiad Dylunio a Mynediad
- Adroddiad Fflach a Llacharedd
- Cynllun Rheolaeth Adeiladu Amgylcheddol
- Cynllun Rheolaeth Trafnidiaeth Adeiladu
- Cynllun Datgomisiynu ac adfer
- Cynllun Tirlunio
- Datganiad Isadeiledd Gwyrdd

1.6 Gwelir fod is-orsaf drydan presennol cwmni Scottish Power wedi ei leoli oddeutu 300m i'r gorllewin o ran agosaf safle'r cais. Mi fyddai cyswllt tanddaearol yn cael ei wneud gyda'r orsaf yma er mwyn dosbarthu'r trydan a gynhyrchir ar y safle i'r rhwydwaith grid lleol.

1.7 Mewn ymateb i ymatebion a dderbyniwyd i ymgynghoriad gwreiddiol y cais, derbyniwyd gwybodaeth ychwanegol a/neu ddiwygiedig ac ail ymgynghorwyd gyda'r partïon perthnasol yn llawn. Yn benodol, derbyniwyd manylion diwygiedig ac ychwanegol ynglŷn â'r fynedfa gerbydol a'r traciau mynediad; cynlluniau manwl o'r fframiau i ddal y paneli solar eu hunain; Datganiad Seilwaith Gwyrdd; Datganiad Ieithyddol; ac ymatebion i sylwadau a dderbyniwyd gan y Gwasanaeth Archeolegol, Cyfoeth Naturiol Cymru, Coed Cadw, Cyngor Cymuned ac Uned Draenio Tir parthed materion SUDS.

1.8 Yn unol ag anghenion Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (fel y'i diwygiwyd) mae'r datblygiad sy'n destun y cais yma yn cael ei diffinio fel "datblygiad mawr" oherwydd maint ardal y datblygiad. Yn unol â'r drefn briodol fe dderbyniwyd Adroddiad Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio fel rhan o'r cais. Mae'r adroddiad yn dangos fod y datblygwr wedi hysbysebu'r bwriad i'r cyhoedd ac ymgynghorwr statudol cyn cyflwyno cais cynllunio ffurfiol. Mae'r adroddiad yn cynnwys copïau o'r ymatebion a dderbyniwyd ar y pryd.

1.9 Mae'r bwriad wedi ei sgrinio o dan C25/0704/38/SC.

## 2. Polisïau Perthnasol:

2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a'r Cynllun Datblygu Lleol.

2.2 Mae’r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i ymgymryd â chamau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r 7 amcan llesiant sydd o fewn y Ddeddf. Mae'r adroddiad hwn wedi’i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu gynaliadwy', fel sydd wedi’i ddatgan yn Neddf 2015. Wrth ffurfio'r argymhelliad mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

2.3 **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026 mabwysiadwyd 31 Gorffennaf 2017**

PS 1: Yr Iaith Gymraeg a’r Diwylliant Cymreig

PS 2: Isadeiledd a chyfraniadau gan ddatblygwyr

ISA 1: Darpariaeth isadeiledd

PS 4: Trafnidiaeth gynaliadwy, datblygiad a hygyrchedd

TRA 4: Rheoli ardrawiadau cludiant

PS 5: Datblygu cynaliadwy

PS 6: Lliniaru effeithiau newid hinsawdd ac addasu iddynt

PCYFF 1: Ffiniau datblygu

PCYFF 2: Meini prawf datblygu

PCYFF 3: Dylunio a siapio lle

PCYFF 4: Dylunio a thirweddu

PS 7: Technoleg adnewyddadwy

ADN 2: Ynni PV solar

PS 19: Gwarchod a lle bo’n berthnasol gwella’r Amgylchedd naturiol

AMG 1: Cynlluniau Rheolaeth Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol

AMG 5: Ardaloedd o dirwedd arbennig

AMG 3: Gwarchod a gwella nodweddion a rhinweddau sydd yn nodedig i gymeriad y dirwedd leol

AMG 5: Cadwraeth Bioamrywiaeth leol

AMG 6: Gwarchod safleoedd o arwyddocâd rhanbarthol neu leol

PS 20: Diogelu a lle bo’n berthnasol wella asedau treftadaeth

AT 1: Ardaloedd cadwraeth, safleoedd treftadaeth y byd a thirweddau, parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig

AT 4: Diogelu safleoedd archeolegol nad ydynt wedi’u dynodi a’u gosodiad

Hefyd yn berthnasol yn yr achos yma yw'r canlynol:

Canllaw Cynllunio Atodol (CCA): Cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy

2.4 **Polisïau Cenedlaethol:**

Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040

Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 12 - Chwefror 2024)

Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 5: Cynllunio a chadwraeth natur

NCT 6: Cynllunio ar gyfer cymunedau gwledig cynaliadwy

NCT 11: Sŵn

NCT 12: Dylunio

NCT 18: Trafnidiaeth

NCT 20: Cynllunio a'r Gymraeg

NCT 24: Yr Amgylchedd hanesyddol

**3. Hanes Cynllunio Perthnasol:**

3.1 Nid yw'n ymddangos fod unrhyw hanes Cynllunio diweddar yn ymwneud a'r safle.

3.2 Cyflwynwyd ymholiad cyn cyflwyno cais o dan gyfeirnod Y21/0938 pryd y trafodwyd yr egwyddor o ddatblygiadau o'r fath a'r hyn fyddai'n ddisgwyliedig o ran asesiadau a gwybodaeth i'w gyflwyno fel rhan o unrhyw gais Cynllunio ffurfiol.

**4. Ymgynghoriadau:**

| | |
|---|---|
| Cyngor Cymuned/Tref: | Mae Cyngor Cymuned Llanbedrog wedi derbyn nifer sylweddol o lythyrau yn mynegi pryderon gan drigolion lleol sydd yn gwrthwynebu'r cais yma. Fe fu aelodau Cyngor Cymuned Llanbedrog yn trafod y cais mewn cyfarfod yr wythnos diwethaf ac maent wedi pleidleisio yn erbyn y cais cynllunio yn y cyfarfod hwnnw. Mae gan Gyngor Cymuned Llanbedrog sawl rheswm dros wrthwynebu'r cais. Mae'r rhesymau hynny wedi eu nodi isod:<br><br>1. Yn gyntaf mynegwyd pryder gan sawl aelod ynglŷn ag ansawdd y cais.<br><br>2. Mynegwyd pryder hefyd ynglŷn â'r lleoliad ar ffaith y byddai'r |

fferm solar yn cael ei hadeiladu ar dir amaethyddol da. Nodwyd fod y tir yma wedi bod yn cael ei ddefnyddio ers blynyddol ar gyfer ffermio a chadw gwartheg godro da. O ganlyniad, roedd y Cyngor Cymuned yn bryderus iawn am effaith y cynllun ar ffermwyr lleol. 3.Mynegwyd pryder pellach am effaith y cynllun ar yr olygfa yn yr ardal.

4. Ymhellach, mae llwybr troed pwysig o Lanbedrog i Nefyn yn mynd drwy un cae. Nid yw'r llwybr i'w weld ar y map. Ond mae o wedi ei gynnwys yng nghorff y cais.

5. Mynegwyd pryder hefyd am ddiffyg ystyriaeth i hofrenyddion fyddai'n hedfan uwchben lleoliad y fferm solar. Nodwyd fod man glanio'r Ambiwlans Awyr yn agos iawn at y lleoliad dan sylw.

6. Mae'r Cyngor Cymuned hefyd yn nodi ei bod hi'n bwysig gwneud safiad yn erbyn cynllun o'r fath rhag gosod cynsail peryglus ar gyfer y dyfodol.

7. Ni fyddai cynllun o'r fath yn dod a budd economaidd sylweddol i'r ardal.

8. Mae union leoliad y cais arfaethedig sydd gan yr adran gynllunio ar y wefan yn anghywir a dylid ymestyn y ffin hyd at Lon Pin, felly yn gwneud safle y cais yn ddwywaith y maint.

9. Nid yw map yr adran gynllunio yn dangos lleoliad adeilad brics fydd angen ei adeiladu (fel rhan o'r cynllun) i gysylltu'r pŵer o'r safle i'r grid cenedlaethol.

Mae'r methiannau yma yn gwneud y cais yma yn annilys ac felly y dylid ei daflu allan.

| | |
| --- | --- |
| Uned Drafnidiaeth: | Cyfeiriaf at y cais uchod a chadarnhaf nad oes gan yr uned drafnidiaeth wrthwynebiad. Gofynnir am gynnwys cyfres o amodau / nodiadau safonol os caniateir y cais. |
| Cyfoeth Naturiol Cymru: | Rydym yn parhau i fod â phryderon gyda'r cais fel y'i cyflwynwyd. Fodd bynnag, rydym yn fodlon y gellir goresgyn y pryderon hyn os yw amod ynglŷn ag atal llygredd ynghlwm wrth unrhyw ganiatâd cynllunio a roddir ac mae'r ddogfen a nodir isod wedi'i chynnwys yn y cynlluniau a'r dogfennau cymeradwy ar yr hysbysiad penderfyniad:<br>• Cynnig Tirweddu Meddal Manwl, Drwg Rhif edp2777_d025a, gan EDP (Cynllun Tirweddu Manwl).<br><br>Tirwedd Ddynodedig |

Mae ein cyngor cynllunio tirwedd yn ymwneud ag effeithiau posibl y datblygiad ar gymeriad tirwedd ac amwynder gweledol Tirwedd Genedlaethol Llŷn / Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) a'i lleoliad, ac a fyddai'r cynigion yn gwarchod ac yn gwella harddwch naturiol yn unol â phwrpas statudol y dynodiad. Mae'r safle wedi'i leoli oddeutu 1km o ffin yr AHNE ar ei bwynt agosaf ac mae o fewn lleoliad yr AHNE, lle mae'r ddyletswydd i roi sylw i ddibenion dynodiad yr AHNE yn berthnasol. Rydym wedi adolygu'r wybodaeth ychwanegol ganlynol a gyflwynwyd mewn ymateb i'n cyngor blaenorol dyddiedig 31 Ionawr 2024 sef Detailed Soft Landscape Proposal. Mae'r Cynllun Tirwedd Manwl yn seiliedig ar y Strategaeth Tirwedd Braslunio a baratowyd gan EDP, a gyflwynwyd yn flaenorol ac y cyfeirir atynt yn ein cyngor blaenorol. Mae'r Cynllun Tirwedd Manwl yn mynd i'r afael â'r cais am gynllun tirwedd manwl, fel y gofynnwyd yn ein cyngor blaenorol. Os yw'ch Awdurdod yn bwriadu cymeradwyo'r cais, gofynnwn i'r Cynllun Tirwedd Manwl gael ei ychwanegu at y rhestr o luniadau/cynlluniau cymeradwy.

Rhywogaethau Gwarchodedig

Nodwn fod y llythyr eglurhaol dyddiedig 7 Mawrth 2025 yn nodi: "Ni fydd y datblygiad arfaethedig yn tarfu ar unrhyw goed sydd â photensial ystlumod.". Felly, nid oes gennym unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y cais fel y'i cyflwynwyd mewn perthynas ag ystlumod. Rydym yn argymell eich bod yn trafod yr angen i sicrhau mesurau osgoi pellach gyda'ch cynghorydd ecolegol mewnol.

Atal Llygredd

Rydym wedi adolygu'r Construction Environmental Management Plan (CEMP). Mae cwrs dŵr ar ffin dde-ddwyreiniol y safle a chwrs dŵr tua 110 medr o ffin orllewinol/de orllewinol y safle arfaethedig. O ystyried pa mor agos yw'r ddau gwrs dŵr, byddem yn cynghori y dylid rhoi cynllun rheoli dŵr ar waith i ymdrin yn gywir â dŵr ffo a pheryglon llygredd. Rydym yn fodlon bod y CEMP yn ymdrin yn llawn â gwaredu a rheoli gwastraff, ond mae gwybodaeth gyfyngedig wedi'i darparu mewn perthynas â sut y bydd y prosiect yn lleihau'r risg o lygredd. Rydym yn cynghori bod rhagor o wybodaeth yn cael ei chyflwyno trwy atodi amod atal llygredd ar unrhyw ganiatâd Cynllunio.

Dŵr Cymru:

Wedi adolygu’r cynnig, nid yw’n ymddangos fod angen unrhyw gysylltiadau gyda’r rhwydwaith garthffosiaeth leol ar gyfer dŵr wyneb neu aflan fel rhan o’r datblygiad. Oherwydd hyn, nid oes gan

| | |
| --- | --- |
| | Dŵr Cymru unrhyw sylw i'w wneud ynglŷn a'r cais. |
| Uned Gwarchod y Cyhoedd: | Bydd asesiad sŵn yn cael ei gyflwyno sy'n dangos cydymffurfiaeth gyda'r lefel sŵn a ganlyn.<br><br>Ni fydd allyriadau sŵn o weithrediad y fferm solar yn fwy na: -<br><br>i) lefel sy'n cyfateb i gromlin NR 30 rhwng 0700 a 2200 a chromlin NR 20 o gwbl , pan gaiff ei asesu gyda ffenestri ar agor o fewn unrhyw annedd neu adeilad sy'n sensitif i sŵn;<br><br>ii) 50 dB(A) Leq(1awr) o'i fesur o fewn gofod amwynder allanol unrhyw annedd neu adeilad sy'n sensitif i sŵn.<br><br>Fel arfer disgwylir iddynt wneud asesiad sŵn ond ni chredir fod rheswm i'w wrthod a byddai modd adeiladu mesuriadau lliniaru i mewn i'r cynlyn. Gellir gosod yr amodau ar unrhyw benderfyniad ar y cais. |
| Gwasanaeth Tân: | Mynedfa ar gyfer Cerbydau tân: Dim sylwadau.<br><br>Cyflenwad dŵr: Dylai unrhyw gyflenwad dŵr fod yn unol â Dogfen Gymeradwyedig B Adran 16. |
| Uned Draenio Tir: | Ers y 7fed Ionawr 2019, mae angen systemau draenio cynaliadwy (SDC) i reoli dŵr wyneb ar gyfer pob datblygiad newydd o fwy nac 1 tŷ neu lle mae'r arwynebedd adeiladu gydag oblygiadau draenio yn 100m2 neu fwy. Rhaid i systemau draenio fod wedi eu dylunio a'u hadeiladu yn unol â safonau gofynnol ar gyfer draenio cynaliadwy a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru.<br><br>Rhaid i'r systemau hyn gael eu cymeradwyo gan Gyngor Gwynedd yn ei rôl fel Corff Cymeradwyo SDC (CCS) cyn y bydd gwaith adeiladu'n dechrau.<br><br>Oherwydd maint a natur y datblygiad mae'n debyg bydd angen darparu cais i'r Corff Cymeradwy SDS i'w gymeradwyo cyn dechrau'r gwaith adeiladu. Nid oes cynllun draenio wedi ei gyflwyno a hyd nes y gwneir cais i'r CCS, nid oes sicrwydd y byddai'r cynllun y safle yn galluogi cydymffurfiaeth â'r gyfres lawn o safonau SDC cenedlaethol. Argymhellir ymgynghoriad cynnar gyda'r CCS. |
| Uned Bioamrywiaeth: | Mae'r ymgeisydd wedi darparu adroddiad ecolegol. Cynhaliwyd yr arolwg i safon dda, ond cafodd y glaswelltir a gwrychoedd eu |

harolygu ar 10 Mawrth 2023, sef cyn y gwanwyn a'r haf pan fo nifer o blanhigion yn tyfu ac yn blodeuo, mae'n debygol bod nifer o rywogaethau planhigion wedi'u methu. Bydd mynedfa newydd yn cael ei chreu a thraciau ar hyd y pedwar cae. Rwyf yn sylweddoli bod yr arolwg yn cynnwys 4 cae a bod prydles y cwmni ynni solar yn cynnwys 4 cae, bydd gan ddau ohonynt drefniant solar ac argymhellaf bod y ddau gae arall yn darparu gwelliannau bioamrywiaeth drwy eu rheoli nhw fel lle addas i ehedydd sy'n magu a dolydd gwair traddodiadol. Felly, argymhellaf bod cynllun gwella bioamrywiaeth yn cael ei ddarparu, yn dangos pa gaeau fydd yn cael eu rheoli fel dolydd traddodiadol ac amserlen o weithrediadau rheoli. Ni chynhaliwyd arolwg ymlusgiaid a, gan fod y safle yn laswelltir byr, mae'n annhebygol o gefnogi ymlusgiaid ar hyn o bryd. Mae'r cynllun tirweddu meddal dyddiedig 21 Mawrth 2024 yn dangos y bydd ardal y trefniant solar yn cael ei hadu gyda chymysgedd amaethyddol, a bydd cymysgedd o flodau gwyllt neu gadw'r glaswelltir gwreiddiol ar gyfer y rhannau eraill. Argymhellaf bod y glaswelltir gwreiddiol yn cael ei gadw ar gyfer yr holl safleoedd. Mae'n rhaid disodli 'turves' y ffosydd gyda'r pridd mewn mannau lle bydd ceblau yn cael eu gosod. Bydd y datblygiad hwn yn arwain at yr effeithiau bioamrywiaeth ac ecolegol canlynol: 1. Colli cynefin glaswelltir (trefniant solar, traciau, ardaloedd o leiniau caled, cysylltiadau trydanol). Er nad yw'r glaswelltir hwn yn cymhwyso fel cynefin adran 7, mae'n debygol bod ganddo werth bioamrywiaeth cymedrol a gall fod yn gynefin addas ar gyfer ffyngau glaswelltir. 2. Colli rhan o wrych a choed aeddfed. 3. Colli rhan o glawdd. Mae cloddiau yn gynefin o flaenoriaeth bioamrywiaeth lleol ac yn rhan o gymeriad y dirwedd leol. Nid yw'r adroddiad ecolegol wedi darparu amcan ar gyfer yr ardal o laswelltir a gollwyd na hyd y gwrych/clawdd. Nid yw'r effeithiau hyn wedi'u lliniaru ac argymhellaf reolaeth addas gyda lefelau pori a chyfnodau i wella bioamrywiaeth a galluogi blodau gwyllt i dyfu.

Uned Goed:

Cynhaliwyd ymweliad i'r safle ar 22/09/2025 a chytunir gyda sylwadau Coed Cadw dyddiedig 07/02/2024 bod **angen osgoi** difrod i'r coed hynafol sy'n leinio'r trac mynediad presennol (fel y nodwyd ar y Rhestr Coed Hynafol (ATI)). Mae hyn yn cyd-fynd â'r dull fesul cam a fanylwyd arno yn PPW12.

Ar ôl adolygu'r cynlluniau diweddaraf, mae'n ymddangos y bydd trac mynediad newydd yn cael ei greu, yn hytrach na gwneud unrhyw addasiadau, ehangu, ail-wynebu neu waith peirianyddol arall i'r trac presennol, a gall hyn gael effaith niweidiol ar goed hynafol. Bydd y trac newydd yn croesi tir amaethyddol gwell ac, felly, yn osgoi'r fath effaith.

Pe byddai caniatâd cynllunio yn cael ei roi, dylid gosod amod i sicrhau nad yw unrhyw waith adeiladu neu draffig gweithredol sy'n gysylltiedig â'r datblygiad yn defnyddio'r trac i'r gogledd o'r safle.

| | |
|---|---|
| | Mae hyn i atal niwed i'r coed hynafol a nodwyd ar yr ATI, yn unol â'r dull fesul cam a osodwyd yn PPW12 i sicrhau bod cynefinoedd anadferadwy yn cael eu hamddiffyn. |
| Scottish Power: | Rwyf wedi adolygu'r cynigion a darparu sylwadau ar gyfer SP Energy Networks sy'n gweithredu ac yn rheoli'r rhwydwaith trydan hyd at 132kV ar ran y gweithredwr rhwydwaith trwyddedig, SP Manweb, ar gyfer yr ardal, gan gynnwys safle'r cais.<br><br>Yn gyffredinol, nid oes gan SP Energy Networks unrhyw wrthwynebiad i'r datblygiad arfaethedig yn ddarostyngedig i'r mesurau angenrheidiol i amddiffyn asedau rhwydwaith SP Manweb a sicrhau gweithio diogel o amgylch y rhwydwaith sy'n cael ei effeithio. Dylid cynghori'r ymgeisydd i gysylltu â SP Energy Networks ynghylch unrhyw ymholiadau am gyswllt a dylai'r caniatâd fod yn ddarostyngedig i amod cynllunio. Pe byddai'r cais yn cael ei gymeradwyo, dylai'r ymgeisydd fod yn ymwybodol o'r angen i weithio'n ddiogel o amgylch yr asedau hyn. |
| Uned Iaith: | Y risg/effaith ieithyddol a adnabyddir gan yr ymgeisydd: Fawr ddim effaith.<br><br>Barn gryno yr Uned Iaith: Mae'r Uned Polisi wedi cadarnhau'r angen ar gyfer Datganiad Iaith. Calonogol gweld bod y datblygwr yn bwriadu defnyddio enw Cymraeg ar gyfer y safle ac mi arwyddion dwyieithog (manylion cyswllt ac arwyddion rhybudd). Hoffem gyfeirio'r ymgeisydd at wefan Comisiynydd y Gymraeg a'r Cynnig Cymraeg, er mwyn eu cynorthwyo i greu Cynllun Iaith, ac adnabod camau datblygu o ran hybu defnydd o'r Gymraeg. |
| CADW: | Mae'r wybodaeth ychwanegol hon yn cynnwys; darluniau ffurfiol i raddfa matrics a gydnabuwyd (gan gynnwys manylion y trac mynediad, darluniau ffurfiol o fframiau panel, Cynllun Tirweddu). Datganiad Isadeiledd Gwyrdd a gwybodaeth ychwanegol o ran pwyntiau ymgynghori penodol. Nid yw'r wybodaeth ychwanegol hon yn effeithio ar ein cyngor blaenorol; sef na fydd y datblygiad arfaethedig yn cael unrhyw effaith andwyol sylweddol neu effaith niweidiol annerbyniol ar leoliadau'r henebion cofrestredig uchod. |
| Gwasanaeth Archeolegol: | Mae adroddiad ar y gwaith ffosydd prawf archeolegol a gwblhawyd ar y safle wedi'i gynhyrchu. Rydym wedi adolygu'r adroddiad a monitro'r gwaith maes blaenorol fel curaduron rhanbarthol, ac yn cadarnhau bod y gwaith wedi'i wneud yn unol â safonau proffesiynol |

| | |
| --- | --- |
| | CIfA ar gyfer gwaith o'r fath.<br><br>Yn unol â pholisi cynllunio lleol a chenedlaethol, argymhellir, pe byddai caniatâd cynllunio yn cael ei roi, bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn gofyn am gwblhau rhaglen o waith archeolegol fesul cam. |
| Uned Hawliau Tramwy: | Cyfeiriaf at y cais uchod. Mae Hawliau Tramwy Cyhoeddus (Llwybrau Troed) rhifau 8 a 10 yng Nghymuned Llanbedrog yn cael ei heffeithio gan y bwriad yma. Bydd angen i’r ymgeisydd sicrhau bod y llwybrau cyhoeddus yn aros ar agor ac ar gael i ddefnyddwyr cyn ac ar ôl y datblygiad hwn yn ogystal a sicrhau mesuriadau diogelwch y cyhoedd. Yn ogystal bydd angen sicrhau bod dim difrod yn digwydd i arwyneb y llwybr.<br><br>O ran cau llwybr troed cyhoeddus dros dro, sef llwybr Llanbedrog rhif 8, gofynnir i’r ymgeisydd gysylltu â Thîm Llwybrau Cyhoeddus Cyngor Gwynedd. |

Ymgynghoriad Cyhoeddus:

Rhoddwyd rhybuddion mewn nifer o leoliadau gwasgaredig ger y safle, rhoddwyd rhybudd yn y wasg a gwybyddwyd trigolion cyfagos. Daeth y cyfnod hysbysebu i ben a derbyniwyd nifer o lythyrau / gohebiaeth yn ogystal â phetisiwn yn gwrthwynebu ar sail:

- Graddfa annerbyniol/effaith llacharedd
- Effaith niweidiol ar ddynodiadau tirlun/effaith niweidiol ar fwynderau gweledol/niwed i olygfeydd sensitif o diroedd uwch o fewn yr AHNE
- Deunyddiau a gorffeniadau nodweddion megis is-orsaf allan o gymeriad
- Gwybodaeth annigonol/gwybodaeth gamarweiniol/diffyg asesiadau trylwyr/safon y wybodaeth yn wael
- Amlygrwydd y math o ddatblygiad ar ffurf ac edrychiad naturiol y tirlun lleol/difetha'r ardal
- Effaith niweidiol ar y dwristiaeth/ busnesau lleol
- Colled o diroedd amaethyddol o safon dda
- Ceisiadau tebyg wedi eu gwrthod
- Effaith niweidiol ar asedau archeolegol/ treftadaeth
- Pryder am niwed ecolegol/Bioamrywiaeth leol/effaith ar rywogaethau wedi eu gwarchod
- Niwed i goed hynafol a/neu wedi eu gwarchod
- Gosod cynsail
- Cau llwybr cyhoeddus/effaith niweidiol i gerddwyr
- Effaith niweidiol ar fwynderau preswyl/iechyd trigolion lleol
- Effaith niweidiol ar y rhwydwaith ffyrdd lleol ac ar symudiadau/ffyrdd cyhoeddus yn rhy gul i'r datblygiad/niweidiol i gyflwr y lonydd
- Groes i ofynion polisïau perthnasol/arweiniad llywodraeth
- Effaith niweidiol ar adeilad rhestredig gerllaw
- Dim buddiant lleol
- Sŵn/golau annerbyniol
- Lleoliad anaddas
- Ardrawiad amgylcheddol
- Pryder am waith datgomisiynu/ cyfrifoldeb cyllidol
- Diffyg capasiti yn y rhwydwaith i dderbyn y trydan a gynhyrchir
- Angen asesiadau annibynnol
- Effaith niweidiol ar ôl-troed carbon/niwed amgylcheddol
- Lleoliad anaddas i fwriad o'r fath

Yn ogystal â'r gwrthwynebiadau uchod derbyniwyd gwrthwynebiadau nad oedd yn wrthwynebiadau cynllunio dilys oedd yn cynnwys:

- Mae'r safle o fewn yr AHNE
- Mi fyddai'n golygu effaith ar dai lleol trwy golli gwerth

Derbyniwyd llythyr / gohebiaeth yn cefnogi / rhoi sylwadau ar y cais ar sail:

- Angen cryf am ffynhonnell ynni adnewyddadwy fel hyn
- Mae'n ffurf o arallgyfeirio i amaeth sydd yn fwy atyniadol na datblygiadau carafanau fel y ceir yn lleol

**5. Asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol:**

**Egwyddor y datblygiad**

5.1 Mae'n ofynnol gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn unol â'r cynllun datblygu a fabwysiadwyd, oni bai bod ystyriaethau perthnasol eraill yn nodi fel arall. Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (CDLL) yw'r 'Cynllun Datblygu' mabwysiedig. O safbwynt polisïau cyffredinol, mae Polisi PCYFF 1 yn datgan y tu allan i ffiniau datblygu bydd cynigion yn cael eu gwrthod oni bai eu bod yn unol â pholisïau penodol y cynllun neu bolisïau cynllunio cenedlaethol neu fod y cynnig yn dangos bod ei leoliad yng nghefn gwlad yn hanfodol.

5.2 Yn yr achos hwn, dywedir yn y Datganiad Cynllunio mai'r rheswm dros leoli'r adnodd yn y man a fwriedir oedd ei agosatrwydd at is-adeiledd grid presennol, topograffi yn wynebu'r de a'i leoliad cymharol ynysig oddiwrth derbynyddion gweledol. Nodir fod maint y cynllun o raddfa sydd yn cyfateb i'r tirlun ble fyddai'n cael ei leoli. Wrth ystyried mai'r bwriad yn yr achos hwn fyddai gosod gwifrau dan ddaear dros bellter gweddol fyr rhwng y safle a'r is-orsaf gyfagos, fe gredir bod hynny yn llawer llai niweidiol i'r dirwedd a'r amgylchedd yn gyffredinol na rhedeg gwifrau rhai milltiroedd o safleoedd ymhellach i ffwrdd.

5.3 Mae polisi ISA 1 yn gefnogol i gynigion am wasanaethau dŵr, trydan, nwy ac ati i wella'r ddarpariaeth, yn amodol ar ystyriaethau cynllunio manwl. Mae'r polisi yn nodi y caniateir cynigion i ddarparu isadeiledd neu wasanaethau cyhoeddus, yn cynnwys cyflenwad dŵr, draenio carthffosiaeth, nwy a thrydan a gwasanaethau perthnasol eraill, cyn belled nad ydynt yn peri niwed sylweddol i'r Amgylchedd lleol, mwynderau cyhoeddus neu ddiogelwch y cyhoedd. Derbynnir felly, o gael safle priodol sy'n dderbyniol o safbwynt amgylcheddol, bod cyfiawnhad mewn egwyddor dros ddatblygu'r cyfleuster hwn mewn lleoliad gwledig fel yma.

5.4 Mae polisi ADN 2 yn ymwneud yn benodol a chynigion ynni PV solar. Dywedir y caniateir cynigion am ffermydd PV solar hyd at 5MW os gellir cydymffurfio gyda chyfres o feini prawf penodol sy'n ymwneud yn bennaf ac effaith ar ansawdd gweledol y dirwedd ynghyd ag effaith ar ffactorau amgylcheddol a chymdeithasol eraill:

1. Bod holl effeithiau ar gymeriad y dirwedd, asedau treftadaeth ac adnoddau naturiol wedi'i liniaru yn ddigonol, gan sicrhau bod nodweddion arbennig holl ddynodiadau tirwedd, bioamrywiaeth a threftadaeth o bwysigrwydd lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, gan gynnwys, lle bo'n briodol, yn eu gosodiadau yn cael eu diogelu neu eu gwella;
2. Ni fydd y cynnig yn arwain at niwed sylweddol i ddiogelwch neu fwynderau derbynyddion sensitif yn cynnwys effaith gan fflachio a llacharedd ac ni fydd yn cael effaith annerbyniol ar ddiogelwch ffyrdd, rheilffyrdd nac awyrennau;
3. Ni fydd y cynnig yn arwain at niwed sylweddol i fwynderau gweledol preswyl trigolion cyfagos;

4. Ni fydd y cynnig yn cael effaith cronnus annerbyniol mewn perthynas â ffermydd PV solar cyfredol a'r rhai sydd â chaniatâd, ac unrhyw nodweddion amlwg eraill yn y dirwedd;
5. Ar ddiwedd oes weithredol y cyfleuster, bydd y paneli a'r isadeiledd cysylltiedig yn cael eu tynnu i lawr yn unol â chynllun adfer y tir ac ôl-ofal a gyflwynir i a'i gytuno gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol;
6. Bod Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu ( CRhAA) yn cael ei gyflwyno i ddangos bod unrhyw effeithiau negyddol posib a gyfyd yn ystod y cyfnodau adeiladu a dadgomisiynu yn cael eu hosgoi.

5.5 Mae maen prawf rhif 1 o'r polisi yn nodi y dylai math, graddfa a dyluniad y

datblygiad arfaethedig fod yn briodol o safbwynt y safle, y lleoliad a'r effaith ar y dirwedd. Mae Astudiaeth Sensitifrwydd a Chapasiti y Dirwedd 2014 yn asesu sensitifrwydd a chapasiti'r dirwedd i ymdopi gyda mathau penodol o ddatblygiadau. Yn ôl y gwaith sydd wedi ei wneud, mae safle'r cais yma wedi ei leoli o fewn Ardal Cymeriad Tirwedd G07 Gorllewin Llyn, gyda'r strategaeth ar gyfer yr ardal mewn perthynas â datblygiadau solar ar y tir yn datgan *"Yn nodweddiadol does dim capasiti ar gyfer datblygiad ynni PV solar ar raddfa cae (ac eithrio datblygiad anaml iawn, graddfa ficro a ddylai gysylltu'n dda gydag aneddiadau/adeiladau presennol).* Mae'r canlyniad yma ar sail fod ansawdd olygfaol a'r ymdeimlad cryf o le a brofir yn y dirwedd hon wedi arwain at rannau ohono yn cael ei ddynodi'n genedlaethol o fewn AHNE Llŷn a gweddill yr ardaloedd o fewn yr ardaloedd a ddynodwyd yn ATA Gorllewin Llŷn. Nodir hefyd fod datblygiad 'micro' yn cael ei ddiffinio fell llai na 500KW ac/neu 1ha. Mae'n bwysig nodi fod yr asesiad yma hefyd yn amlygu fod sensitifrwydd yn amrywio yn lleol o fewn yr Ardal Cymeriad Tirwedd, ac y dylid ystyried y dystiolaeth sydd ar gael ynghyd ag ymweld â phob safle'n unigol cyn penderfynu os yw natur y safle penodol yn golygu y gellir ymdopi gyda datblygiad ar raddfa fwy neu lai na'r hyn a argymhellir yn yr Astudiaeth. Rhaid nodi hefyd fod yr Astudiaeth yn Strategol o dirwedd yr ardal gan roi braslun o'r ardaloedd hyn. Nid yw'n rhagnodol ar lefel safleoedd unigol. Mae'n nodi fod sensitifrwydd ardaloedd yn amrywio ac felly gwerthusiad cyffredinol ar draws ardaloedd a wneir.

5.6 Mae'r ymgeisydd wedi cyflwyno Asesiad Tirwedd ac Effaith Weledol (ATEW) ar gyfer y bwriad. Mae'r dirwedd o fewn y safle ac o'i amgylch, yn arbennig felly'r llystyfiant aeddfed sydd yn gysylltiedig gyda'r gwrychoedd ar ffiniau'r caeau, ynghyd a'r coedlannau cyfagos, yn gymorth i integreiddio'r datblygiad yn rhannol i'r dirwedd oddi amgylch. Daw'r ATEW i'r casgliad , oherwydd natur isel y datblygiad, llystyfiant presennol a ffurf donnog y dirwedd, mai bychan fyddai effaith y bwriad ar gymeriad tirwedd yr ardal leol. Ni fyddai unrhyw effaith niweidiol arwyddocaol ar yr AHNE nac ar unrhyw olygfeydd i mewn neu allan o'r ardal warchodedig. Mae'r ATEW hefyd yn cyfeirio at fesurau lliniaru ar ffurf tirweddu ychwanegol yn cynnwys llenwi bylchau yn y gwrychoedd a waliau presennol.

5.7 Cydnabyddir fod y tir fyddai'n cynnwys safle'r paneli solar eisoes yn gymharol guddiedig o'r tu allan i'r safle ac y byddai'n bosib sicrhau atgyfnerthiad i'r sgrinio i'w cuddio hyd yn oed yn fwy effeithlon drwy amodau cynllunio. Cydnabyddir hefyd y byddai'n debygol o fod yn rhannol weladwy o rai cyfeiriadau ar hyd y ffordd gyhoeddus a llwybrau cyhoeddus cyfagos, ac y byddai'r tirweddu ychwanegol yn cymryd amser i aeddfedu. Nodir fod gan y datblygiad gyfnod gweithredol oddeutu 25 mlynedd ac felly mae posib bydd rhan helaeth o'r cyfnod yma wedi pasio erbyn i'r tirweddu aeddfedu i lefel derbyniol. Yn ychwanegol,

rhaid cydnabod fod y safle wedi ei leoli o fewn Ardal Tirwedd Arbennig, ac er bod yna dai cyfagos nid yw'r safle yn cysylltu'n dda gydag aneddiadau neu adeiladau presennol, ac mae'r bwriad y tu hwnt i'r hyn a ddiffinnir fel datblygiad 'micro'. Mae'r bwriad yn disgyn o fewn diffiniad 'canolig' o ran yr ynni a gynhyrchir (hyd at 5MW) neu 'mawr' o ran maint (10-20ha) yn ol yr Astudiaeth. Ystyrir felly fod yr ardal yn sensitif a bod y datblygiad yn sylweddol fwy na'r hyn mae'r Astudiaeth yn ei ddiffinio fel datblygiad 'micro'. I'r perwyl hyn ni ystyrir fod y bwriad o'r maint yma yn dderbyniol o fewn y dynodiad tir yma ac felly mae'n groes i ofynion maen prawf 1 polisi ADN 2 ynghyd ac Astudiaeth Sensitifrwydd a Chapasiti y Dirwedd 2014.

5.8 O ran yr ail faen prawf, gwelir fod Adroddiad Fflach a Llachardedd wedi ei gyflwyno gyda'r cais sydd yn asesu effaith y bwriad o ran yr ystyriaethau hyn. Nid oes tystiolaeth wedi ei gyflwyno i wrthddweud yr hyn a nodir ac felly ni chredir y byddai'r effaith sylweddol o ganlyniad o ran yr ystyriaethau hyn.

5.9 Mae eiddo preswyl a adnabyddir fel Wern Newydd i gyfeiriad y de o'r safle ar dir sydd yn uwch na safle'r cais ac y byddai yn goredrych yn unionyrchol tuag at y safle. Er y cydnabyddir fod pellteroedd rhwng yr eiddo yma a safle'r cais yn amrywio rhwng oddeutu 265m a 398m, oherwydd ei leoliad dyrchafedig mi fyddai'r paneli yn nodwedd amlwg a pharhaol o edrych i'r gogledd o'r safle preswyl yma. Mae maen prawf 3 yn nodi *"Ni fydd cynnig yn arwain at niwed sylweddol i fwynderau gweledol preswyl trigolion cyfagos"* ac er nad oes diffiniad o beth fyddai effaith 'sylweddol' credir y byddai maint y safle bwriedig a phresenoldeb parhaol y paneli yn golygu fod yr effaith yn sylweddol yn achos preswylwyr Wern Newydd. O ganlyniad mae'r bwriad yn groes i ofynion maen prawf 3 o'r polisi.

5.10 Nid oes ffermydd solar cyfredol eraill o fewn yr ardal leol ac felly nid oes pryder o ran unrhyw effaith cronnus, ni ystyrir felly fod y bwriad yn groes i faen prawf 4.

5.11 Mae'n arferol wrth ystyried ceisiadau o'r math yma i osod amod safonol i sicrhau fod y paneli ac isadeiledd cysylltiedig yn cael eu tynnu o'r safle a'r tir yn cael ei adfer i'w gyflwr gwreiddiol yn unol â maen prawf 5.

5.12 Cyflwynwyd Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu gyda'r cais sydd yn ymddangos yn safonol ond perthnasol i'r datblygiad a'r safle. Credir fod maen prawf 6 yn cael ei fodloni.

5.13 Ar sail yr uchod, er yr ystyrir fod egwyddor y bwriad yn dderbyniol o safbwynt polisïau yn ymwneud a thechnoleg adnewyddadwy sef PS 7 a ADN 2, mae'n methu ar sail ei effaith ar gymeriad y dirwedd a mwynderau gweledol preswyl trigolion cyfagos.

**Mwynderau gweledol**

5.14 Mae polisi PCYFF 3 yn hyrwyddo dyluniad o ansawdd uchel drwy sicrhau fod cynigion yn cydymffurfio a chyfres o feini prawf sy'n anelu at ddiogelu nodweddion a chymeriad cydnabyddedig amgylchedd naturiol, hanesyddol ac adeiledig. Mi fyddai'r bwriad yma'n golygu creu adnoddau ar gyfer cyfarpar cysylltiol ond fe fyddai'r rhain yn gymharol fychan. Mae bwriad hefyd i osod ffens ddiogelwch ynghyd a gosod polion ar gyfer camerâu cylch cyfyng. Cyfeirir at baragraffau 5.4-5.6 uchod sy'n asesu'r bwriad ar gymeriad y dirwedd, ac ar sail yr asesiad hynny ni ystyrir fod y bwriad, oherwydd ei faint a'i leoliad yn ychwanegu nac yn gwella cymeriad y safle ac felly ystyrir fod y bwriad yn groes i ofynion polisi PCYFF 3 a 4 ac AMG 2.

5.15 Mae pryder wedi ei amlygu gan wrthwynebwyr o ran effaith y bwriad ar edrychiadau i mewn ac allan o'r AHNE. Mae ffin agosaf yr AHNE oddeutu 1km i ffwrdd o safle'r cais i gyfeiriad y de ddwyrain. Credir fod y pellter yma ynghyd a natur y dirwedd a rhwystrau parhaol yn cyfyngu os nad gwahardd yn llwyr edrychiadau amlwg i mewn neu allan o'r AHNE. Ni chredir fod y bwriad yn annerbyniol ar sail unrhyw effaith niweidiol ar yr AHNE ac felly yn dderbyniol o ran gofynion polisi AMG 1. Gan mai effaith leol yn bennaf a geir o ganlyniad i'r bwriad, ni chredir y byddai effaith amlwg ar ddynodiad eang Tirlun o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Llŷn ac Enlli ac felly ni ystyrir fod y bwriad yn groes i ofynion polisi AT1.

**Mwynderau cyffredinol a phreswyl**

5.16 Mae maen prawf 7 o bolisi PCYFF 2 o'r Cynllun Datblygu yn ymwneud a diogelu mwynderau'r gymdogaeth leol. Mae'r maen prawf yma yn datgan y gwrthodir cynigion os fyddant yn cael effaith andwyol sylweddol ar iechyd, diogelwch neu fwynderau meddianwyr eiddo lleol.

5.17 Yn yr achos yma, mae dogfennau ychwanegol (sydd wedi'u rhestru yn y disgrifiad

o'r cais) wedi eu cyflwyno fel rhan o'r cais ac mae'r wybodaeth sy'n cael ei gynnwys yn y dogfennau yn datgan na fydd y datblygiad yn achosi unrhyw niwsans neu lacharedd anaddas o ganlyniad i'r haul ddisgleirio, ac na fydd y bwriad yn achosi effaith weledol niweidiol arwyddocaol. Fe dderbyniwyd gohebiaeth yn gwrthwynebu oddi wrth dai cyfagos yn bennaf ar sail yr effaith ar y tirlun a'r golygfeydd o'i eiddo. Cyfeirir at baragraffau 5.7 uchod sy'n asesu effaith y bwriad ar fwynderau trigolion cyfagos sy'n cynnwys effaith fflachio a llacharedd Yn unol â'r asesiad hynny felly, ni ystyrir fod y bwriad yn debygol o gael effaith o ran fflachio a llacharedd. Nodir fod paragraff 5.8 uchod yn cadarnhau fod y bwriad yn debygol o gael effaith weledol sylweddol o un eiddo penodol oherwydd maint a lleoliad y safle o'i gymharu a'r eiddo preswyl sydd wedi ei leoli ar safle dyrchafedig, nid yw gofynion polisi PCYFF 2 yn cyfeirio at yr effaith yma ac felly ni ystyrir fod y bwriad yn groes i ofynion penodol y polisi yma.

**Materion trafnidiaeth a mynediad**

5.18 Mae polisi TRA 4 o'r Cynllun Datblygu yn ymwneud a rheoli ardrawiadau cludiant.

Yn yr achos yma, gwelir bwriad i greu mynedfa gerbydol newydd ac yna traciau mynediad o fewn y safle. Yn amlwg yn ystod cyfnod datblygu'r safle, mi fyddai cynnydd mewn symudiadau yn gysylltiedig â hynny o ran danfoniadau a gweithwyr.

Er nad yn gallu cadarnhau yn glir, disgwylir y byddai effaith tebyg yn ystod cyfnod datgomisiynu o ran natur a nifer y symudiadau.

5.19 Cydnabyddir fod y rhwydwaith ffyrdd lleol yn gymharol gul a heb reolaeth, y gallai symudiadau ynghlwm a datblygiad o'r fath greu trafferthion i ddefnyddwyr y ffordd yn achlysurol. Gwelir felly fod ystyriaeth wedi ei gymryd i'r effaith yma a chamau priodol yn cael eu cynnig i leddfu'r trafferthion mwyaf. Er enghraifft, cynigir fod nifer o ddeunyddiau yn cael eu danfon i'r safle wedi eu storio o fewn cynhwysyddion sydd yn golygu llai o symudiadau. Mi fydd danfoniadau yn cael eu hamserlennu er mwyn osgoi danfoniadau lluosol yn cyrraedd ar yr un amser. Fel sydd yn arferol, credir fod rheolaeth o'r materion hyn yn bosib i'w gyflawni trwy gynnwys amod i gytuno manylion terfynol a thrwy hynny sicrhau fod y datblygiad yn bodloni gofynion perthnasol polisi TRA 4. Derbyniwyd sylwadau'r Uned Drafnidiaeth sydd yn cadarnhau nad oes gwrthwynebiad i'r bwriad ac felly ni chredir fod y bwriad yn annerbyniol ar sail gofynion perthnasol polisïau TRA 2 a TRA 4.

**Materion Archeolegol**

5.20 Derbyniwyd ymateb cychwynnol i'r cais gan yr ymgynghorydd archeolegol yn datgan y byddai'r datblygiad arfaethedig ar sail y manylion a gyflwynwyd, yn debygol o effeithio ar faterion archeolegol a bod o ganlyniad, oblygiadau i hynny. Nodwyd fod y wybodaeth yn annigonol er mwyn ffurfio barn ar y cais fel y cyflwynwyd.

5.21 Yn ddiweddarach, cyflwynwyd adroddiad pellach o ganlyniad i archwiliadau ychwanegol o'r safle gan gynnwys gwaith agor ffosydd. Mae'r wybodaeth yma wedi cael ei asesu a nodir fod y gwaith a wnaed ar y safle hefyd wedi cael ei fonitro ar y pryd gan swyddogion Heneb. Rhoddir cadarnhad fod y gwaith wedi ei gynnal yn unol â safonau proffesiynol perthnasol ar gyfer y math yma o waith er y cydnabyddir fod un elfen eto i'w gwblhau ar gyfer y rhan yma. Nodir y gellir cynnal gwaith pellach i gyd fynd a'r rhaglen lliniaru fyddai i'w gynnal. Ond ar sail asesiad llawn o'r holl wybodaeth ac yn unol â gofynion polisïau lleol a chenedlaethol, fe argymhellir pe byddai caniatâd yn cael ei roi, dylai'r Awdurdod Cynllunio Lleol sicrhau rhaglen o waith archeolegol terfynol trwy gynnwys amodau safonol.

5.22 O ystyried yr arweiniad uchod a roddir gan yr ymgynghorydd archeolegol credir petai'r bwriad wedi bod yn dderbyniol fod modd sicrhau rhaglen waith priodol ar gyfer archeoleg, a thrwy hynny, sicrhau fod y bwriad yn cydymffurfio gyda gofynion perthnasol polisïau PS 20 ac AT 4.

5.23 Mae polisi PS 20 hefyd yn gwarchod a diogelu asedau treftadaeth gan gynnwys adeiladau rhestredig a thirluniau hanesyddol cofrestredig. Yn ychwanegol, Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yn datgan y dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol roi sylw arbennig i ddymunoldeb o gadw/diogelu gosodiad adeilad rhestredig. Mae adeilad rhestredig gradd II* Wern Fawr wedi ei leoli oddeutu 230m i'r gogledd o ran agosaf safle'r cais tra bod sawl adeilad rhestredig ymhellach draw ac yn wasgaredig ond o fewn 2.5km i'r safle. Nid oes unrhyw gofeb gofrestredig hanesyddol o fewn neu'n gyfochrog a'r safle ond fe welir fod cofnod o henebion o fewn 2.5km i'r safle.

5.24 Credir fod pellter digonol rhwng y safle ac asedau hanesyddol lleol fel na fyddai'n cael effaith uniongyrchol ac amlwg arnynt. Gwelir mai adeilad Wern Fawr yw'r

adeilad rhestredig agosaf ond o ystyried y pellter rhwng y safle a’r adeilad yn ogystal â phresenoldeb nifer o goed aeddfed a gwrychoedd sefydledig, ni ystyrir fod y bwriad yn debygol o achosi niwed arwyddocaol i osodiad adeiladau rhestredig ac asedau hanesyddol eraill ac ystyrir felly fod y bwriad yn cydymffurfio a gofynion polisi PS20.

**Materion bioamrywiaeth**

5.25 Mae rhai gwrthwynebiadau a dderbyniwyd yn codi pryder am effaith y datblygiad ar

fioamrywiaeth a rhywogaethau a warchodir yn yr ardal. Nodir yn ogystal fod yr Uned Bioamrywiaeth yn cyfeirio at anghenion ychwanegol fyddai angen ei ystyried ar gyfer datblygiad y safle. Credir petai’r bwriad wedi bod yn dderbyniol fod modd sicrhau mesurau lliniaru a rheolaethol priodol ar gyfer y safle a'i gyffiniau a fydd yn amddiffyn buddiannau nodweddion bioamrywiaeth.

5.26 Gwelir fod pryder hefyd wedi ei godi am effaith y datblygiad arfaethedig ar goed hynafol o fewn yr ardal leol. Mae’r honiad fod coed hynafol yn cael eu heffeithio wedi ei wneud heb ei selio ar ddata gwyddonol neu gadarn ac er mwyn adnabod coed fel rhai hynafol, mae angen gwneud hynny trwy ddilyn meini prawf trwyadl. Er hynny, fe gynhaliodd y swyddog coed asesiad o’r cynnig trwy asesiad ffurfiol o’r wybodaeth ddiwygiedig a gyflwynwyd ynghyd a chynnal ymweliad safle i ystyried yr effaith ar goed cyfagos. Cadarnhawyd pe byddai’r bwriad yn defnyddio rhodfa bresennol y byddai pryder am yr effaith ar goed hynafol ond gan mai bwriad sydd i greu ffordd fynedfa newydd trwy gaeau amaethyddol i ffwrdd o’r coed, ni fyddai pryder o ganlyniad.

5.27 Cyflwynwyd Datganiad Seilwaith Gwyrdd gyda’r cais yn ogystal ag asesiad ecolegol gan gwmni cymwys. O sicrhau fod modd gweithredu’r argymhellion a’r mesurau lliniaru fel y nodir yn y dogfennau yma trwy amodau addas er mwyn gwarchod buddiannau rhywogaethau a chynefinoedd, fe ystyrir y gallai'r cynllun gwrdd ag amcanion polisïau PS 19 ac AMG 5 sy'n anelu at amddiffyn nodweddion bioamrywiaeth nodedig ynghyd a phennod 6 o Bolisi Cynllunio Cymru sy'n ymwneud a seilwaith gwyrdd a’r dull fesul cam.

**Cyfnod gweithredol**

5.28 Mae'r cais yn gofyn am gyfnod gweithredol o 25 mlynedd ar gyfer y datblygiad sydd yn gyfnod arferol a rhesymol ar gyfer datblygiadau o'r fath. Wrth ystyried nad yw'r cyfnod yn un arwyddocaol, fe ystyrir byddai cyfnod datblygiad am 25 mlynedd yn dderbyniol.

**Budd cymunedol**

5.29 Mae’r datblygwr wedi ystyried posibiliadau fyddai’n cynnwys cyfraniadau cymunedol a pherchnogaeth leol gan ddarparu buddion cymunedol. Dywedir fod modelau ariannu yn cael ei ystyried ar gyfer cefnogi perchnogi prosiect cymunedol o’r maint yma. Cydnabyddir fod rhaid i unrhyw gamau o’r fath fod yn ddichonadwy er mwyn ei fabwysiadu, fel arall datrysiad ariannol masnachol fyddai ei angen er mwyn sicrhau gweithrediad y cynllun. Pe byddai’r cais yn dderbyniol, credir y byddai’n rhesymol ategu amod i gytuno’r mater hyn ymhellach gan ei bod yn rhesymol i ddisgwyl y dylid cynllun o’r math, maint ac mewn lleoliad fel yma, gyfrannu i’r gymuned leol.

**Materion eraill**

5.30 Mae'r safle yn cynnwys tir pori amaethyddol sydd wedi ei asesu fel 98% o dir graddfa 2 (tir amaethyddol safon dda iawn) a 2% yn dir graddfa 3b (tir cymedrol ar gyfer cynhyrchu cnydau neu uchel ar gyfer cynhyrchu gwair). Mae paragraff 3.58 o Bolisi Cynllunio Cymru (PCC) yn nodi mai "*tir amaethyddol gradd 3a yn ogystal â dosbarthiadau 1 a 2 yn y Dosbarthiad Tir Amaethyddol (ALC)16 sydd yn cael ei ystyried fel y tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas, a dylid ei warchod fel adnodd y mae terfyn iddo ar gyfer y dyfodol"*

tra bod paragraff 3.59 yn nodi

*"Wrth ystyried y drefn chwilio ac ym mholisïau'r cynllun datblygu a'r penderfyniadau rheoli datblygu, dylid rhoi cryn bwys ar ddiogelu tir o'r fath rhag ei ddatblygu, oherwydd ei bwysigrwydd arbennig. Ni ddylid datblygu tir o raddau 1, 2 a 3a, onid oes angen sy'n drech na dim arall am y datblygiad, ac os nad oes tir a ddefnyddiwyd o'r blaen neu dir o raddau amaethyddol is ar gael, neu os oes gan y tir o radd amaethyddol is werth amgylcheddol a gydnabyddir drwy ddynodiad tirwedd, bywyd gwyllt, hanesyddol neu archeolegol, a bod hynny'n drech na'r ystyriaethau amaethyddol. Os oes angen datblygu tir o raddau 1, 2 neu 3a, a bod dewis rhwng safleoedd o wahanol raddau, dylid cyfeirio'r datblygiad at y tir o'r radd isaf".*

5.31 Mae'r wybodaeth a gyflwynwyd fel rhan o'r cais yn datgan na fydd y bwriad yn golygu colli'r tir amaethyddol yn gyfan gwbl gan fod posib parhau defnyddio tir ar gyfer defnydd amaethyddol er gwaethaf y paneli solar. Cydnabyddir y byddai'r datblygiad yn cael effaith ar y math o ddefnydd amaethyddol a wneir o'r tir petai'r bwriad yn cael ei ganiatáu, ond rhaid cydnabod hefyd fod gosod paneli solar yn ddatblygiad dros dro (er am gyfnod o 25 mlynedd) a petai'r bwriad yn dderbyniol byddai amod cynllunio yn cael ei osod ar gyfer adfer y tir wedi'r cyfnod gweithredol ddod i ben. I'r perwyl hyn felly, ni ystyrir fod y bwriad yn gwbl groes i ofynion maen prawf 6 o bolisi PS6 na'r Cyngor a roddir ym Mholisi Cynllunio Cymru yn benodol felly, paragraffau 3.58 a 3.59 yn yr achos yma.

**Materion ieithyddol**

5.32 Gan eithrio'r datblygiadau sy'n cyrraedd y trothwyon ar gyfer cyflwyno Datganiad/Asesiad ar Effaith Iaith Gymraeg a nodir ym Mholisi PS1, fe roddir arweiniad o ran y mathau o geisiadau perthnasol ble fo angen rhoi ystyriaeth i'r iaith Gymraeg yn Atodiad 5 (Y Drefn Sgrinio) o'r Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) 'Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy'. Mae'r arweiniad a gynhwysir yn nodi y dylai pob datblygiad manwerthu, masnachol neu ddiwydiannol ble nad oes angen cyflwyno Datganiad/Asesiad iaith Gymraeg ddangos sut fo ystyriaeth wedi ei roi i'r iaith. Er nad yn gwbl hanfodol yn yr achos yma ar sail graddfa'r bwriad, cyflwynwyd Datganiad Ieithyddol yn nodi'r ystyriaeth a fu i'r iaith Gymraeg wrth lunio'r cynllun ac yn nodi sawl agwedd sut bydd y cynllun yn hyrwyddo'r iaith, mae'r rhain yn cynnwys:

- Enw Cymraeg i'r datblygiad;

- Sicrhau arwyddion dwyieithog o fewn y safle

5.33 Fe gredir pe byddai’r cais yn dderbyniol byddai modd gosod amod i gytuno ar enw a’r defnydd o’r Gymraeg ar arwyddion, a thrwy hynny sicrhau byddai’r datblygiad yn cyfrannu tuag at bresenoldeb gweledol yr iaith yn unol â gofynion polisi PS 1.

**Yr ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus**

5.34 Cydnabyddir fod nifer o wrthwynebiadau wedi eu derbyn i’r bwriad yma ac fe ystyrir fod yr holl faterion cynllunio perthnasol wedi derbyn sylw priodol fel rhan o’r asesiad uchod. Gwneir yr argymhelliad ar sail asesiad llawn o'r holl ystyriaethau cynllunio perthnasol gan gynnwys yr holl sylwadau a gwrthwynebiadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus ac ni wnaed cam ac unrhyw un wrth ystyried y cais hwn.


**6. Casgliadau:**

6.1 O ganlyniad i'r asesiad uchod, ni ystyrir fod y bwriad yn gwbl dderbyniol ar sail cydymffurfiaeth lwyr gyda gofynion polisïau perthnasol fel y nodir uchod. Yn benodol, ystyrir bod yr effeithiau a nodir ac a drafodir yn yr asesiad uchod yn gwrthdaro yn erbyn polisi er bod egwyddor gyffredinol bwriad fel yma yn cael ei gefnogi cyn belled eu bod yn cydymffurfio gyda pholisïau mabwysiedig eraill. Ystyrir felly fod y bwriad yn annerbyniol ar sail maint a lleoliad y bwriad o fewn Ardal Tirwedd Arbennig a’i effaith weledol ar gymeriad y tirwedd, a niwed i fwynderau gweledol preswyl trigolion cyfagos.

**7. Argymhelliad:**

7.1 Dirprwyo’r hawl i’r Uwch Reolwr Cynllunio i wrthod:

7.2 Mae’r bwriad yn annerbyniol o ystyried gofynion maen prawf 1 a 3 polisi ADN 2 ynghyd a gofynion polisïau PCYFF 3 a 4 ac AMG 2 o’r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (2017) ac Astudiaeth Sensitifrwydd a Chapasiti y Dirwedd 2014 o ganlyniad i faint a lleoliad y bwriad o fewn Ardal Tirwedd Arbennig a’i effaith weledol ar gymeriad y tirwedd, ac ei fod yn cael niwed sylweddol i fwynderau gweledol preswyl trigolion cyfagos, yn benodol eiddo Wern Newydd.




Lon Pin Site

**Lease Area**

N

Cynllunio
Derbyn - 19/04/2023

OS MasterMap 1250/2500/10000 scale
Tuesday, November 20, 2018, ID: HMC-00757692
www.themapcentre.com

1:5000 scale print at A4, Centre: 232435 E, 332907 N


©Crown Copyright Ordnance Survey. Licence no. 100018971

OS Data

MAIL BOXES ETC.

# GWYBODAETH YCHWANEGOL
# ADDITIONAL INFORMATION

Cynllunio
Derbyn - 07/03/2025




N
W E
S

- Modules
- Vegetation foliage
- Existing access tracks
- New internal access tracks
- Security camera
- Transformer station
- Point of connection
- Supply switch Kiosk
- Public footpath
- Array's fence

**Fields Area:**

| | | |
|---|---|---|
| Field 1 | 28509 | m2 |
| Field 2 | 20946 | m2 |
| Field 3 | 44886 | m2 |
| Field 4 | 37198 | m2 |
| Field 5 | 17109 | m2 |

**Area of usage**

| | Field 3 | Field 4 | |
|---|---|---|---|
| Array area | 20847 | 19866 | m2 |
| Panel area | 12123 | 11392 | m2 |
| Open area between arrays | 8724 | 8473 | m2 |
| Area for mixed wild flower seed | 13118 | 11841 | m2 |
| Fenced area | 56747 | | m2 |
| Area of substations | 36.5 | 36.5 | m2 |
| Area of new trackway | 1922.4 | | m2 |

**Respective Lengths**

| | | |
|---|---|---|
| Length of fencing | 1027 | m |
| Length of new track way | 430 | m |
| Area of New Track Way | 1854 | m2 |
| Number of cameras | 11 | ea |

Scale
0m 100m

| Rev | Date | By | Description | Rev | Date | By | Description |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | 09 | 22/03/24 | SE | Panel layout and areas modified, access track revised |
| | | | | 08 | 13/12/23 | SE | POC location adjusted and GRP Switch Kiosk added |
| | | | | 07 | 13/08/23 | SE | Access route and POC modified in line with Arb report |
| | | | | 06 | 27/03/23 | SE | Adjusted for archaeological exclusion zones |
| | | | | 05 | 10/03/23 | SE | Utiltiy scale panel size and quantity updates |
| | | | | 04 | 28/02/23 | SE | Updated following meeting with SPEN |
| | | | | 03 | 25/10/22 | SE | General updates |
| 10 | 16/04/24 | SE | Updates following Archeologically investigation | 02 | 21/05/20 | SE | DNO Substation moved closer to boundary line |

SJ1 RENEWABLES
SJ1 Renewables Ltd
**Do not scale from drawing**
**All dimensions in meters**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Site Name:** Lon Pin | | Type of System: Photovoltaic | Project Stage: Planning | |
| Drawing Title: General arrangement drawing | | Total output: 4.996 MW | | Connection: 11kV |
| Revision: R10 | Scale: 1:2500 | Drawing Status: Proposal | Date: 03/05/2020 | Pagesize: A3 |
| Drawn By: SE | Checked By: NE | Sheet: 1 of 1 | Drawing No: E00105-00-000 | |

GWYBODAETH YCHWANEGOL
ADDITIONAL INFORMATION

**Cynllunio**
Derbyn - 07/03/2025




### Tree Maintenance and Management During 5 Year Establishment Period

Immediately following planting, the tree should be watered thoroughly. Trees are to be watered at least weekly between May and September in years 1 and 2. Give trees 20 gallons (unless adequate rain has fallen). Subsequent watering will be undertaken as necessary by the developer if trees start showing signs of drought to ensure the establishment and continued success of all planted areas from year 3 onwards. If the tree pit has been specified with an irrigation pipe, this should be used as the primary method of watering. If no irrigation pipe is specified, the square metre of ground around the tree should be soaked to field capacity (refer to BS8545:2014 for further details on surface watering. Watering frequency is more important than quantity to prevent the root ball of the newly planted tree from drying out.

All trees are fitted with protective guards to prevent animal damage. These should be checked regularly to ensure they remain in place and are providing adequate protection against the animals in the area. If damage to trees from browsing by animals still occurs, additional measures may be required.


A formal assessment of young tree health and development should be carried out annually by a qualified arborist who will be able to advise on solutions should any problems be picked up. During this assessment, any stakes and ties should be checked to ensure they are providing support but not damaging the tree and that the tree is still firmly seated in the ground. If the tree has become loose in the ground, the soil around the base should be re-firmed and stakes and ties adjusted accordingly.


The mulched area around the base of the tree should be kept clear of competing vegetation and weeds at all times.

Tree stakes and ties should be removed once the tree has established a strong enough root system to support itself, likely to be 1-2 years after planting. Tree guards should only be removed if they are beginning to restrict tree growth or if it is felt the risk of damage has significantly reduced due to strong tree growth and development or changes in the surrounding environment.

Formative pruning should be carried out in accordance with BS3998 as required throughout the 5 year establishment period.

For further guidance on tree maintenance during establishment refer to BS8545:2014 Section 11.






### Native Hedgerow Planting Detail

1. Tubex shrub shelter with supporting cane or stake or similar approved.

2. [illegible] biodegradable weed mat [illegible] pegged down with biodegradable pegs along line of hedgerow to prevent weed growth and retain moisture.

3. Whip to be notch planted following clearance of any existing vegetation.

Immediately after planting, water the whip, saturating the ground around its base to field capacity.

For further general guidance on planting refer to BS8545:2014 Section 10 and BS4428:1989 Section 9.

Noted Tubex Products are available from Tubex (http://www.tubex.com/).

### Hedgerow Maintenance and Management During 5 Year Establishment Period

[illegible]

For further guidance on tree maintenance during establishment refer to BS8545:2014 Section 11.


### Tree Pit Detail

[illegible]

### Tree Maintenance and Management During 5 Year Establishment Period

[illegible]

Site Boundary
Existing Tree to be Retained
Refer to the Arboricultural Report
Existing Grassland to be Retained
Proposed Tree Planting
Proposed Native Hedgerow
Proposed Native Understory Planting
Cotswolds Seeds: Long Term Grazing Mixture (WIXSPLT) Mix
Wildflower Meadow - Naturescape: N13 Acid Soils Meadow Mixture
Proposed Track Access
Proposed Perimeter Fencing
Overhead Powerline
Power Station
Proposed Solar Array
Badger Set Exclusion




purpose of issue **PLANNING**


client
**Lon Pin Solar Limited**

project title
**Solar Site at Lon Pin, Llanbedrog**

drawing title
**Detailed Soft Landscape Proposal**
**Sheet 1 of 2**

| | | | |
|---|---|---|---|
| date | 21 MARCH 2024 | drawn by | TYC |
| drawing number | edp2777_d025a | checked | [illegible] |
| scale | 1:500 @ A0 | QA | [illegible] |

edp the environmental dimension partnership



## Planting Schedule of Gapping Hedgerow

### Trees

| Common Name | Species | Girth | Height | Specification | Density |
|---|---|---|---|---|---|
| Common Oak | Quercus robur | | 60-80cm | Transplant: seed raised: 1+2: B | 4.5Ctr |

### Shrubs

| Common Name | Species | Height | Pot Size | Specification | Density |
|---|---|---|---|---|---|
| Common Maple | Acer campestre | 60-80cm | | Whip | 4.5Ctr |
| Common Hazel | Corylus avellana | 60-80cm | | Branched :3 brks | 4.5Ctr |
| Common Hawthorn | Crataegus monogyna | 60-80cm | | Whip | 4.5Ctr |
| Common Holly | Ilex aquifolium | 60-80cm | | Branched :3 brks | 4.5Ctr |
| Blackthorn | Prunus spinosa | 60-80cm | | Branched :3 brks | 4.5Ctr |
| Alder Buckthorn | Rhamnus frangula | 60-80cm | | Whip | 4.5Ctr |
| Dog Rose | Rosa canina | 60-80cm | | Branched :3 brks | 4.5Ctr |

## Planting Schedule of New Native Hedgerow

### Hedges

| Number | Common Name | Species | Height | Specification | Density |
|---|---|---|---|---|---|
| 941 | Common Maple | Acer campestre | 60-80cm | Whip | 0.3Ctr Double Staggered at 0.5m offset |
| 377 | Common Hazel | Corylus avellana | 60-80cm | Branched :3 brks | 0.3Ctr Double Staggered at 0.5m offset |
| 565 | Common Hawthorn | Crataegus monogyna | 60-80cm | Whip | 0.3Ctr Double Staggered at 0.5m offset |
| 377 | Common Holly | Ilex aquifolium | 60-80cm | Branched :3 brks | 0.3Ctr Double Staggered at 0.5m offset |
| 565 | Blackthorn | Prunus spinosa | 60-80cm | Branched :3 brks | 0.3Ctr Double Staggered at 0.5m offset |
| 377 | Common Oak | Quercus robur | 60-80cm | Transplant: seed raised: 1+2: B | 0.3Ctr Double Staggered at 0.5m offset |
| 190 | Alder Buckthorn | Rhamnus frangula | 60-80cm | Whip | 0.3Ctr Double Staggered at 0.5m offset |
| 377 | Dog Rose | Rosa canina | 60-80cm | Branched :3 brks | 0.3Ctr Double Staggered at 0.5m offset |

**Total :3769**

Site Boundary
Existing Tree to be Retained
Existing Grassland to be Retained
Proposed Tree Planting
Proposed Native Hedgerow
Proposed Native Understorey Planting
Cotswolds Seeds: Long Term Grazing Mixture (MIXSPL1) Mix
Wildflower Meadow - Naturescape: N22 Acid Soils Meadow Mixture
Proposed Track Access
Proposed Perimeter Fencing
Overhead Powerline
Power Station
Proposed Solar Array
Badger Set Exclusion

PLANNING

Lon Pin Solar Limited

Solar Site at Lon Pin, Llanbedrog

Detailed Soft Landscape Proposal
Sheet 2 of 2


| | | | |
|---|---|---|---|
| date | 21 MARCH 2024 | drawn by | TVC |
| drawing number | edp2777_d025a | checked | CMa |
| scale | 1:500 @ A0 | QA | RBu |

the environmental dimension partnership


Tud. 34

Cynllunio
Derbyn - 07/03/2025

GWYBODAETH YCHWANEGOL
ADDITIONAL INFORMATION




Partial view showing a 28 panel section within a continuous run




Scale 0 5000mm

| Rev | Date | By | Description |
|---|---|---|---|
| 02 | 22/03/24 | SE | Update to information and re-scaled |


SJ1 RENEWABLES
SJ1 Renewables

**Do not scale from drawing**
**All dimensions in Millimeters**


| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Site Name:** Lon Pin | | Type of System: Photovoltaic | Project Stage: Planning | | |
| Drawing Title: Mounting system diagram of showing a single bay | | Total output: 4.996 MW | | Connection: 11kV | |
| Material: Steel | Finish: Hot Dip Galv | Revision: R02 | Scale: 1:100 | Drawing Status: Proposal | Date: 30/03/2023 |
| Pagesize: A3 | | | | | |
| Projection | | Drawn By: SE | Checked By: NE | Sheet: 1 of 1 | Drawing No: E00105-07-001 |

Cynllunio
Derbyn - 07/03/2025

GWYBODAETH YCHWANEGOL
ADDITIONAL INFORMATION




View of site access point




Section A-A through road at gateway

Notes -
Remove all top soil to expose subsoil and any clay inclusoins
Lay woven goetextile matting
MOT2 course layer to be compacted in layers to required depth
MOT1 topping to be compacted in layers

Scale
0 5000mm

| Rev | Date | By | Description |
|---|---|---|---|
| 02 | 16/04/24 | SE | Gate added |

SJ1 RENEWABLES
SJ1 Renewables

**Do not scale from drawing**
**All dimensions in Millimeters**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Site Name:** Lon Pin | | Type of System: Photovoltaic | Project Stage: Planning | |
| Drawing Title: Access trackway entry to side and Cross section | | Total output: 4.996 MW | | Connection: 11kV |
| Material: See above | Finish: Compacted | Revision: R02 | Scale: 1:100 | Drawing Status: Proposal | Date: 27/03/2024 | Pagesize: A3 |
| Projection | | Drawn By: SE | Checked By: NE | Sheet: 1 of 1 | Drawing No: E00105-05-001 | |







































| PWYLLGOR CYNLLUNIO | DYDDIAD: 20/10/2025 |
|---|---|
| ADRODDIAD PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL | |

**Rhif: 2**

| | |
|---|---|
| **Cais Rhif:** | **C24/0937/16/LL** |
| **Dyddiad Cofrestru:** | **22/09/25** |
| **Math y Cais:** | **Llawn** |
| **Cymuned:** | **Llandygai** |
| **Ward:** | **Tegarth a Mynydd Llandygai** |
| **Bwriad:** | **Datblygu reid dwristiaeth antur newydd ar ffurf 'Swing' i gynnwys codi strwythur platfform, ramp a strwythur glanio, ceblau a strwythurau angori ynghyd â gwaith cysylltiedig** |
| **Lleoliad:** | **Zip World, Chwarel Penrhyn, Bethesda, Bangor, Gwynedd, LL57 4YG** |
| **Crynodeb o'r Argymhelliad:** | **CANIATÁU GYDAG AMODAU** |

**1 Disgrifiad:**

1.1 Mae hwn yn gais llawn ar gyfer creu gweithgaredd ychwanegol ar safle *Zip Worl*d yn Chwarel y Penrhyn, Bethesda. Y bwriad yw sefydlu reid newydd ar ffurf siglen fawr (6 sêt) gyda'r gwaith yn cynnwys codi strwythur platfform, ramp a strwythur glanio, ceblau cysylltiedig â strwythurau angor.

1.2 Mae safle'r cais yn cynnwys darn o dir o fewn ardal Chwarel y Penrhyn, i'r de-orllewin o safle presennol Zip World, gan ymestyn ar draws llyn y chwarel tua'r de-ddwyrain tuag at oriel ar lefel uwch ar ochr ddeheuol y twll chwarel. Mae'r datblygiad arfaethedig yn cynnwys pedair prif elfen:

- Y pwynt angori isaf (gogleddol), y ramp, yr ardal lanio a'r cert;
- Y siglen a'r platfform;
- Y pwynt angori uchaf (deheuol);
- Byddai'r uchod yn cael ei gysylltu trwy ddau gebl tensiwn, yn croesi'r chwarel rhwng y ddau bwynt angori. Byddai'r rhain yn cael eu gosod yn eu lle gan barau o golofnau dur unionsyth ar sylfeini pad concrit.

1.3 Lleolir y safle yn rhannol oddi fewn i Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru ynghyd a Thirwedd Hanesyddol Eithriadol Dyffryn Ogwen gyda henebion Chwarel y Penrhyn (ysbyty'r chwarel, lefelau tanddaearol ac ardaloedd creiriol) yn gyfagos.

1.4 Fe gyflwynwyd yr wybodaeth isod er cefnogi'r cais :

- Datganiad Cynllunio
- Asesiad Effaith Treftadaeth;
- Asesiad Effaith Economaidd;
- Asesiad Tirwedd a Gweledol;
- Asesiad Gosodiad;
- Asesiad Effaith Sŵn;
- Gwerthusiad Ecolegol Rhagarweiniol;
- Gwelliannau Cynefinoedd
- Strategaeth Draenio;
- Cynllun Teithio Dros Dro
- Datganiad Dull Adeiladu; a
- Cynllun Rheolaeth Adeiladu Amgylcheddol

**2. Polisïau Perthnasol:**

2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a'r Cynllun Datblygu Unedol.

2.2 Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i ymgymryd â chamau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r 7 amcan llesiant sydd o fewn y Ddeddf. Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu gynaliadwy', fel sydd wedi'i ddatgan yn Neddf 2015. Wrth ffurfio'r

argymhelliad mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

**2.3 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn. (Fersiwn Cyfansawdd yn cynnwys Newidiadau Materion sy'n Codi, Ionawr 2017)**

PCYFF 2 : Meini Prawf Datblygu

PCYFF 3 : Dylunio a Siapio Lle

TWR 1: Atyniadau a Chyfleusterau Ymwelwyr

AT 1 : Ardaloedd Cadwraeth, Safleoedd Treftadaeth y Byd a Thirweddau, Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig

PS 1 : Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig

PS 14 Yr Economi Ymwelwyr

PS 19 : Gwarchod a Lle Bo'n Berthnasol Gwella'r Amgylchedd Naturiol

PS 20 : Diogelu a Lle Bo'n Berthnasol Wella Asedau Treftadaeth

**2.4 Polisïau Cenedlaethol:**

Polisi Cynllunio Cymru – (Argraffiad 12, 2024)

Nodyn Cyngor Technegol 5: Cynllunio a chadwraeth natur

Nodyn Cyngor Technegol 11: Sŵn

Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio

Nodyn Cyngor Technegol 13: Twristiaeth

Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr amgylchedd hanesyddol

**3. Hanes Cynllunio Perthnasol:**

Mae hanes cynllunio helaeth i'r safle hwn ond dim yn ymwneud a'r datblygiad penodol yma.

**4. Ymgynghoriadau:**

Noder, fe fu sawl ymgynghoriad ynghylch y cynllun hwn yn sgil derbyn gwybodaeth ddiwygiedig wrth ystyried y cais - fe grynhoir y sylwadau diweddaraf a dderbyniwyd gan yr ymgynghorwyr isod :

| | |
|---|---|
| Cyngor Tref: | Heb dderbyn ymateb |
| Uned Trafnidiaeth: | Dim gwrthwynebiad |
| Cadw | Cyngor<br><br>Mae'r ymateb hwn yn seiliedig ar y cyngor a ddarparwyd gan Uwch Swyddog Cynllunio Amgylchedd Hanesyddol Cadw. |

